

Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 2025/2026



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Crynodeb y Cyfarwyddwr	3
Arweinyddiaeth	7
Strwythur Rheoli: Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	8
Y Gweithlu	9
Adnoddau Ariannol	12
Perfformiad	13
Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir /	21
Hyrwyddo a Gwella Llesiant y Rhai Rydym yn eu Helpu	21
Gofal Cymdeithasol i Oedolion	21
Gwasanaethau Integredig	25
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	27
Comisiynu	29
Gofalwyr Di-dâl	33
Llesiant Delta	35
Uned Cymorth Busnes Is-adrannol	37
Perfformiad a Thrawsnewid Digidol	39
Fframwaith Mwy Na Geiriau	41
Beth mae Pobl yn ei Ddweud / Sut mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau	42
Adborth ar Arolygiadau ac Adolygiadau	42
Cwynion a Chanmolïaeth	47
Arolwg Gofal a Chymorth	55
Gwobrau	57
Camau Nesaf 2026/27	59
Atodiad 1	64
Atodiad 2	65

Trefniadau Llywodraethu

- Craffu Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol – 8 Mehefin 2026 (dyddiad cau 27 Mai 2026)
- Cabinet – 27 Gorffennaf 2026 (dyddiad cau 15 Gorffennaf 2026)
- Cyngor – 9 Medi 2026 (dyddiad cau 1 Medi 2026)

Cyflwyniad

Mae'n bleser gen i gyflwyno hwn, fy adroddiad blynyddol cyntaf fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin. Mae Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol ar gyfer 2025/2026 yn nodi sut mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyflenwi ei wasanaethau cymdeithasol statudol a swyddogaethau cysylltiedig, a'r effaith y mae'r gwasanaethau hyn wedi'i chael ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr, a chymunedau lleol Sir Gaerfyrddin. Mae'n darparu tryloywder ynghylch sut mae adnoddau cyhoeddus wedi cael eu defnyddio a sut mae gwasanaethau wedi perfformio, gan sicrhau y gall defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a'r cyhoedd ehangach ddeall beth mae'r cyngor wedi'i wneud, pa mor dda y mae wedi perfformio, a sut mae'n ymateb i anghenion a phwysau a nodwyd.



Mae'r adroddiad yn cyflwyno trosolwg o'r arweinyddiaeth, y gweithlu, cyllid, perfformiad a gwelliant gwasanaethau, a chynnydd a datblygiadau strategol yn ystod y flwyddyn. Bwriedir iddo gefnogi aelodau etholedig a'r rhai sy'n ymwneud â chraffu drwy ddarparu tystiolaeth glir o gynnydd cadarnhaol; nodi'r amrywiol heriau yr ydym yn eu hwynebu yn y gwasanaeth, ynghyd â'u heffaith; a chynorthwyo partneriaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddeall blaenoriaethau, amcanion a rôl y cyngor o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Yn unol â gofynion statudol, mae'n ofynnol i mi adrodd ar ein perfformiad yn flynyddol i ddangos y gwelliannau a gyflawnwyd a'r heriau a wynebwyd yn ystod 2025/26. Mae'r adroddiad hefyd yn cefnogi sicrwydd a goruchwyliaeth ar gyfer rheoleiddwyr ac arolygiaethau, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a chomisiynwyr statudol, ac mae'n rhoi tystiolaeth glir i Lywodraeth Cymru o gyflawni yn erbyn disgwyliadau a blaenoriaethau cenedlaethol.

Bydd yr adroddiad yn nodi ein camau gweithredu blaenoriaeth ar gyfer 2026/27. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n parhau ar ffurf ddrafft wrth inni ymgysylltu â staff, aelodau etholedig, partneriaid a dinasgyddion i sicrhau bod eu safbwyntiau a'u hadborth yn cael eu hystyried cyn ei gymeradwyo'n ffurfiol.

Crynodeb y Cyfarwyddwr

Ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn, rwyf wedi bod yn gyfarwyddwr am chwe mis yn unig, ar ôl ymuno â Chyngor Sir Caerfyrddin ym mis Hydref 2025. Mae Sir Gaerfyrddin yn agos iawn at fy nghalon fel y lle y cefais fy magu, lle mae llawer o fy nheulu yn dal i fyw, ac fel y lle y dechreuodd fy nhaith ym maes gofal cymdeithasol wrth i mi weithio mewn gwasanaethau i oedolion dros 30 mlynedd yn ôl. Rwyf wedi cael y fraint fawr yn y cyfnod byr hwnnw o arsylwi rhywfaint ar y gwaith anhygoel y mae fy adran yn ei wneud i bobl Sir Gaerfyrddin ac wedi gweld â'm llygaid fy hun pa mor ymroddedig a gwydn yw'r gweithlu sydd gennym yn y gyfarwyddiaeth.

Mae fy chwe mis cyntaf yn y swydd wedi canolbwyntio ar ennill goruchwyliaeth weithredol ac adolygu trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad, gyda phwyslais clir ar wella canlyniadau i bobl. Mae hyn wedi cynnwys meithrin perthnasoedd effeithiol â'r gweithlu, aelodau etholedig, partneriaid a rheoleiddwyr; datblygu dealltwriaeth gref o bwysau ar wasanaethau; a nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau a sicrhau arloesi a newid cynaliadwy. Rwyf hefyd wedi treulio llawer o amser yn ceisio cwrdd â chynifer o'r timau o fewn fy ngwasanaeth â phosibl: gyda rhestr hir o dimau a gwasanaethau, bydd yr ymweliadau hyn yn parhau yn ystod gweddill fy mlwyddyn gyntaf fel cyfarwyddwr, a thu hwnt.

Gan ddechrau gyda Phlant a Theuluoedd: roedd yr adran hon, tan fis Medi 2025, wedi'i lleoli o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg. Ers y dyddiad hwn, mae wedi bod yn rhan o gyfarwyddiaeth ehangach y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, penderfyniad a wnaed er mwyn alinio gwasanaethau'n well i bobl agored i niwed, a'r rhai sydd angen gofal a chymorth, o dan un gyfarwyddiaeth. Tua'r adeg hon, ffariellodd yr adran â'i Phennaeth Gwasanaethau Plant ar y pryd, ac ar hyn o bryd mae gennym bennaeth gwasanaeth dros dro a fydd yn dal y swydd nes y gellir recriwtio rhywun parhaol i'r rôl yn ddiweddarach yn 2026.

Fel oedd yn wir gydag adroddiad blynyddol terfynol y cyn-gyfarwyddwr, mae Gwasanaethau Plant wedi parhau i brofi galw difrifol am wasanaethau a phwysau ariannol. Mae atgyfeiriadau i'r gwasanaeth wedi cynyddu, gan arwain at gynnydd ar draws bron pob mesur yn y gwasanaeth. Yn benodol, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu, gyda phwysau ariannol penodol yn cael eu gweld o ganlyniad i gynnydd mewn lleoliadau preswyl a gomisiynir yn allanol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Yn ogystal, mae nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi cynyddu'n gyson dros y flwyddyn. Serch hynny, Sir Gaerfyrddin sydd â'r niferoedd isaf o blant mewn gofal fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru o hyd.

Cafodd ein cartref preswyl newydd i blant – 'Yr Hafan' yn Nhre Iwan – ei arolygiad cyntaf yn ystod 25/26 ers cael ei gofrestru ym mis Ionawr 2025. Roedd yr arolygiad yn hynod gadarnhaol, gyda'r gwasanaeth yn derbyn sgoriau 'Da' ar draws pob un o'r pedwar maes sy'n cael eu harolygu, o dan y system sgorio newydd a weithredwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae cynlluniau i ddatblygu cartref plant newydd yn Llanelli, i adlewyrchu'r galw yn yr ardal hon, wedi parhau, gyda chais cynllunio i'w glywed yn gynnar yn 26/27. Os bydd hyn yn cael ei ddatblygu, bydd pedwar gwely ychwanegol yn cael eu datblygu yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer plant sydd angen gofal preswyl, gan ganiatáu i ni gadw hyd yn oed mwy o'n plant yn sir eu cartref, yn agos at eu teuluoedd a'u cymunedau. Bydd datblygu ein portffolio preswyl i blant hefyd yn lliniaru'r ofn o golli darparwyr o ganlyniad i agenda 'nid er elw' Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 yn ddiweddar. O 1 Ebrill 2026 ymlaen, ni fydd unrhyw ddarparwyr 'er elw' newydd yn gallu cofrestru i ddarparu gofal yng Nghymru. Rydym hefyd wedi bod yn paratoi i lansio cynnig newydd gwell i ofalwyr maeth y sir, unwaith eto i gynorthwyo gyda chadw a recriwtio, ac i liniaru unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth newydd. Mae ein gofalwyr maeth yn darparu adnodd hanfodol a gwerthfawr i'n plant mwyaf agored i niwed, ac rydym wedi ymrwymo i wella'r cymorth ariannol maen nhw'n ei gael gennym ni.

Bydd symud i gynnig ehangach o wasanaethau ataliol a chymorth cynnar, a fydd yn ceisio darparu cymorth i deuluoedd yn llawer cynharach a thrwy hynny atal eu hanghenion rhag

gwaethygu i wasanaethau statudol, yn allweddol o ran trawsnewid llwyddiant yr adran yn y blynyddoedd i ddod. Mae uwchgyfeirio at wasanaethau statudol yn cynyddu'r risg y bydd y plant hynny'n mynd i mewn i systemau gofal neu amddiffyn plant. Bydd deall beth mae'r data yn ei ddweud wrthym o ran ein dull gweithredu drws ffrynt mewn gwasanaethau plant, ac o ran cymhwyso trothwyon a'n hymlyniad wrth ganllawiau ymarfer a deddfwriaeth, yn allweddol i'r ymdrech hon. Am y rheswm hwn, rydym wedi cyflogi academyddion gwaith cymdeithasol allanol ar gyfer 26/27 a fydd yn cefnogi adolygiad o'n dull asesu a thrin drws ffrynt, gyda model profedig sydd wedi gweld atgyfeiriadau, nifer y plant mewn gofal a nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn lleihau mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill. Byddwn hefyd yn cwblhau strategaeth cymorth cynnar ac atal i blant a fydd yn ymdrechu i symud ymyrraeth yn ddiogel o amddiffyn i atal.

Mae Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Plant wedi cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn hon ac mae ei feysydd adrodd wedi cael eu hadnewyddu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddefnyddiol i'r uwch-dîm rheoli, gan ddefnyddio'r data sydd ei angen arno yn unig er mwyn llywio gwelliannau, ac i sicrhau ei fod yn darparu'r wybodaeth gywir i ganiatáu craffu llawn ar ei waith ar draws strwythurau adrodd rheolaeth wleidyddol a chorfforaethol y cyngor. Byddaf yn parhau i gadeirio'r bwrdd hwn o leiaf nes bod pennaeth gwasanaeth parhaol newydd yn cael ei benodi.

Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i arwain prosiect diogelu LINC. Mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei arwain gan ein Huwch-reolwr ar gyfer Perfformiad a Thrawsnewid Digidol, yn datblygu teclyn digidol sy'n caniatáu i asiantaethau gyfuno eu gwybodaeth am bobl ifanc agored i niwed, gan ganiatáu ymatebion rhagweithiol i bryderon. Mewn cydweithrediad â Gwasanaethau Plant Sir Benfro, yr heddlu a chydweithwyr iechyd, mae'r prosiect arloesol hwn yn addo chwyldroi'r ffordd rydym yn rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, a bydd yn ein galluogi i amddiffyn yn well y rhai sydd fwyaf mewn angen. Gobeithiwn weld prototeip gweithredol yn gynnar yn 2026/27. Gallai'r prosiect hefyd ddarparu cyfle yn y dyfodol i'w fabwysiadu'n ehangach ledled Cymru os yw'n llwyddiannus.

Mae ein gwasanaethau i oedolion wedi gweld rhai llwyddiannau rhagorol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gydag adroddiadau arolygu rhagorol ar gyfer eu huned seibiant Tir Einon ar gyfer oedolion ag anableddau, ar gyfer eu gwasanaeth gofal cartref, ac ar gyfer y Tîm Cymunedol ar gyfer Anableddau Dysgu. Rydym yn darparu cyfraddau gofal cartref uwch fyth, gyda gostyngiad cyfatebol yn nifer y gwelyau preswyl sy'n cael eu defnyddio. Er bod lefelau is o feddiannaeth yn dod â'u heriau eu hunain, y newyddion da yw bod mwy o bobl hŷn yn cael aros yn eu cartrefi eu hunain, gan fyw'n annibynnol a chyda'r lleiafswm o gymorth. Rydym yn parhau i fod ag uchelgais i gynyddu ein cyfran o'r farchnad gofal cartref i 50%, er bod hyn yn parhau i fod yn heriol. Byddwn yn adolygu sut mae galwadau gofal cartref wedi'u strwythuro yn 26/27 er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'n capasiti wrth gydbwyso ein hyblygrwydd, a heb fygwth yr hyn a asesir ar hyn o bryd gan Arolygiaeth Gofal Cymru fel gwasanaeth 'Rhagorol' ar draws pob un o'r tri maes arolygu.

Rydym eisoes yn gwybod y rhagwelir y bydd ein poblogaeth hŷn yn tyfu, gyda chynnydd sylweddol yn cael ei ragweld yn 2027 ac eto yn 2030. Bydd hyn yn ychwanegu hyd yn oed mwy o bwysau at system sydd eisoes yn wynebu galw enfawr. Fodd bynnag, rydym yn bwrw ymlaen â chynlluniau i symud ymlaen â datblygiad Cam 2 ar safle blaenllaw Pentre Awel, ynghyd â datblygu cynlluniau ar hen safle Plas y Bryn yng Nghwmgwili, Rhydaman.

Bydd y ddau safle yn darparu capasiti ychwanegol i oedolion hŷn fyw ynddo a chael eu cefnogi wrth iddynt heneiddio. Mae her allweddol yn parhau yn y recriwtio sydd ei angen ar gyfer datblygiadau o'r fath, gyda rhagolygon y bydd y boblogaeth oedolion o oedran gweithio yn crebachu wrth i nifer yr oedolion hŷn hynny sy'n byw'n hirach ac felly angen gofal gynyddu. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar ragolygon ar gyfer gofynion staffio a fydd yn llywio ein strategaeth recriwtio ar draws gofal cymdeithasol.

Yn anffodus, mae Sir Gaerfyrddin wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion o hunanladdiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n cyd-fynd â chynnydd yn y galw am wasanaethau iechyd meddwl yn y sir. Fodd bynnag, mae'r adran wedi gwneud llawer o waith ar atal hunanladdiad, yn enwedig o ganlyniad i'r penodiad i swydd a ariennir gan grant gyda diben pwrpasol o gyflawni yn y maes hwn. Mae gennym gysylltiadau uniongyrchol â'r arweinydd cenedlaethol ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar bobl sydd mewn trallod meddwl. Rydym hefyd yn gyfarwyddiaeth – ac yn gyngor – sydd wedi ymrwymo i ddarparu cynnig llesiant cynhwysfawr i'n staff, y mae rhai ohonynt yn agored i waith gofidus a llawn straen ar adegau. Mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn arwain y gwaith ymateb cyflym i hunanladdiad yn rhanbarthol, gan gynnig cymorth cyflym i'r rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan drasiedïau o'r fath.

Mae ein gwasanaeth 'Ysbyty yn y Cartref' ynghyd â'n Tîm Amlddisgyblaethol Gofal Canolradd – gwasanaethau integredig gyda'n cydweithwyr iechyd – yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl oedrannus a phobl agored i niwed yn ein cymunedau, ynghyd â chefnogi ein hysbytai i sicrhau nad yw cleifion yn cael eu derbyn yn ddiangen, neu i'w cefnogi i gael eu rhyddhau cyn gynted â phosibl pan gânt eu derbyn. Mae ein huwch-ymarferwyr nyrsio o fewn gwasanaethau integredig yn darparu cymorth arbenigol sy'n golygu y gellir canslo galwadau i ambiwlansys ac atal cleifion rhag cael eu cludo i'r ysbyty. Mae hyn yn darparu cymorth sydd ei angen yn fawr i'n cydweithwyr yn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Mae Llesiant Delta – cwmni masnachu hyd braich yr awdurdod lleol – hefyd yn cefnogi'r gwaith hwn gyda'i wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth, yn ogystal â'i wasanaethau ymateb a monitro.

Rhaid cadw'r gair olaf yn fy adroddiad blynyddol cyntaf ar gyfer gweithlu'r gyfarwyddiaeth, sydd, heb os, yr adnodd mwyaf gwerthfawr. Ar ôl gweithio ym maes gofal cymdeithasol am 30 mlynedd, gyda 26 o'r rheini fel gweithiwr cymdeithasol cymwysedig mewn gwasanaethau plant, dydw i erioed wedi gweld pwysau mor ddifrifol ag y gwelwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ac eto mae ein staff yn parhau i ddod i'r gwaith, ddydd ar ôl dydd, ac yn darparu gofal tosturiol ac empathig, gyda lefel o ymroddiad a gwydnwch sy'n ostyngedig ac yn ysbrydoledig i'r un graddau. Mae'n ffrainc aruthrol bod yn arweinydd ar grŵp mor anhygoel o staff ac rwy'n gobeithio gallu eu cefnogi i bethau mwy a gwell yn y blynyddoedd i ddod.

Darren Mutter

Darren Mutter
Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol

Arweinyddiaeth

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'i strwythuro'n sawl adran, pob un yn gyfrifol am wahanol feysydd gwasanaeth. Mae'r adrannau hyn yn cynnwys:

- 1 Prif Weithredwr:** Yn ymdrin â strategaeth gorfforaethol, gwasanaethau democrataidd, gwasanaethau cyfreithiol.
- 2 Addysg a Hamdden:** Yn canolbwyntio ar addysg, ysgolion, dysgu cymunedol, chwaraeon a hamdden, gwasanaethau diwylliannol a diogelu'r cyhoedd.
- 3 Gwasanaethau Corfforaethol:** Yn rheoli cyllid, caffael, y gyflogres a phensiynau.
- 4 Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai:** Yn cwmpasu gofal cymdeithasol i oedolion, gwasanaethau plant a theuluoedd, gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd integredig, a gwasanaethau tai.
- 5 Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd:** Yn ymdrin â chynllunio, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, asedau eiddo, priffyrdd ac adfywio.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnwys 75 o gynghorwyr etholedig, sy'n cynrychioli 51 o wardiau etholiadol. Mae'r cynghorwyr hyn yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau, cyllidebau a pholisïau lleol.

Mae'r cabinet yn cynnwys deg aelod, gan gynnwys Arweinydd y Cyngor. Mae pob aelod o'r cabinet yn goruchwyllo portffolio penodol, fel addysg, gofal cymdeithasol, trafnidiaeth neu newid hinsawdd. Y Cynghorydd Jane Tremlett yw'r Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Cymdeithasol (gweler y llun).



Yn 2025/26, arweiniwyd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai gan y canlynol:

Pennaeth y Gwasanaethau Integredig (Dros Dro) Mae hon yn swydd sy'n cael ei hariannu ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda Joanna Jones
Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion Kate Burton
Pennaeth y Gwasanaethau Plant (Dros Dro) Gill Adams
Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd (wedi'i ariannu ar y cyd â Sir Benfro) Chris Harrison
Pennaeth Tai Jonathan Morgan

Strwythur Rheoli: Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai

Strwythur Rheoli Corfforaethol
Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai

Management Structure
Social Services & Housing Department



Darren Mutter

Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Cymdeithasol a Thai
Director of Social Services & Housing



Jonathan Morgan

Pennaeth Tai
Head of Housing



Kate Burton

Pennaeth Gofal
Cymdeithasol i
Oedolion
Head of Adult Social Care



Joanna Jones

Pennaeth
Gwasanaethau
Integredig (Dros-Dro)
Head of Integrated Services (Interim)



Catherine Evans

Uwch Reolwr
Perfformiad a
Thrawsnewid Digidol"
Senior Manager, Performance and Digital Transformation



Chris Harrison

Pennaeth Comisiynu
Strategol ar y Cyd (Sir
Benfro a Sir Gaerfyrddin)
Head of Strategic Joint Commissioning (Pemb and Cams)



Gill Adams

Pennaeth
Gwasanaethau Plant a
Theuluoedd
Head of Children and Families Services



Y Gweithlu

Mae ein gweithlu wrth wraidd y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, ac mae'r sefyllfa bresennol yn adlewyrchu ymrwymiad a gwydnwch rhyfeddol, ynghyd â her sylweddol. Bob dydd, mae ein hymarferwyr, timau cymorth a rheolwyr rheng flaen yn gweithio gydag empathi, tosturi a phroffesiynoldeb i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed, hyrwyddo annibyniaeth, a chryfhau llesiant ehangach ein cymunedau. Mae eu hymroddiad, yn aml o dan amgylchiadau cymhleth ac emosiynol heriol, yn parhau i fod y cryfder mwyaf i ni fel sefydliad.

Ac eto mae'r pwysau sy'n wynebu'r gweithlu gofal cymdeithasol yn parhau i ddwysáu. Rydym yn llywio marchnad lafur gystadleuol iawn, prinder cenedlaethol o weithwyr cymdeithasol cymwys, a galw cynyddol ar draws gwasanaethau plant ac oedolion.

Mae heriau recriwtio a chadw staff yn parhau mewn rolau hanfodol, gan gynnwys therapyddion galwedigaethol, staff gofal cartref a thimau gofal preswyl. Fodd bynnag, rydym wedi gweld llwyddiant o ganlyniad i'n Academi Gofal, gyda rhagamcanion ar gyfer ein hyfforddeion gwaith cymdeithasol mewnol yn awgrymu cyfraddau swyddi gwag isel iawn ar gyfer gweithwyr cymdeithasol cymwys yn y flwyddyn 26/27. Mae'r sefyllfa hon yn groes i'r darlun rhanbarthol. Ar yr un pryd, rydym yn profi effeithiau gweithlu sy'n heneiddio a'r angen i ddatblygu llif o dalent newydd sydd â'r sgiliau a'r gwydnwch sydd eu hangen mewn ymarfer modern, er mwyn sicrhau bod gennym gynlluniau olyniaeth cadarn ar waith.

Mae'r realiti hwn yn tanlinellu pwysigrwydd strategaeth gweithlu hirdymor a hyblyg: un sydd nid yn unig yn mynd i'r afael â phwysau gweithredol uniongyrchol ond sy'n meithrin capasiti cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Ein gweledigaeth yw gweithlu hyderus, medrus a chefnogol sydd wedi'u grymuso i ddarparu ymarfer o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar berthnasoedd, i'n holl breswylwyr.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y canlynol:

- **Datblygiad proffesiynol a llwybrau gyrfa**, gan sicrhau bod gan ymarferwyr fynediad at hyfforddiant o ansawdd uchel, llwybrau dilyniant, a chyfleoedd i ddatblygu arbenigedd arbenigol.
- **Llesiant, goruchwyliaeth, ac ymarfer myfyriol**, gan gydnabod y baich emosiynol sy'n gysylltiedig â'n gwaith a'r angen am strwythurau cymorth cadarn.
- **Datblygu ein gweithlu ein hunain**, drwy brentisiaethau, hyfforddeiaethau, lleoliadau myfyrwyr, a phartneriaethau cryf â darparwyr addysg.
- **Offer digidol a ffyrdd modern o weithio**, gan alluogi staff i dreulio mwy o amser gyda phobl a llai o amser ar faich gweinyddol.
- **Gweithleoedd cynhwysol a hyblyg**, lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, a'u bod yn gallu ffynnu ym mhob cam o'u gyrfa.


Wrth edrych ymlaen, rydym eisiau gweithlu sy'n amrywiol ac yn wydn ac sy'n cynrychioli ein cymunedau; un sy'n cofleidio arloesedd wrth gynnal y gwerthoedd a'r uniondeb sy'n ganolog i ymarfer gofal cymdeithasol. Ac rydym am i'n gweithlu deimlo eu bod yn cael eu cefnogi drwy gydol y gwaith cymhleth a heriol maen nhw'n ei wneud i bobl Sir Gaerfyrddin.

Drwy alinio ein cynllunio gweithlu ag anghenion hirdymor y boblogaeth a dyheadau deddfwriaeth genedlaethol, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n parhau i fod yn ddiogel ac yn gynaliadwy a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Er bod yr heriau sydd o'n blaenau yn sylweddol, rwy'n hyderus, gyda buddsoddiad parhaus, arloesedd, arweinyddiaeth gref, a ffocws ar y cyd ar ddenu, cadw a datblygu ein pobl, y gallwn adeiladu gweithlu sy'n gallu diwallu gofynion presennol a gofynion y dyfodol. Gyda'n gilydd, byddwn yn creu'r amodau ar gyfer rhagoriaeth mewn ymarfer ac yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'r unigolion, y teuluoedd a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Niferoedd y Gweithwyr

Mae gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai **2,223** o weithwyr. (Sylwch fod y ffigurau hyn yn cynnwys gweithwyr achlysurol.)



Data a Gwybodaeth am Hyfforddiant

Mae ein cydweithwyr Dysgu a Datblygu wedi parhau i gyflwyno rhaglen hyfforddi gynhwysfawr yn ystod 2025/26, gan gynnwys ar bynciau fel ymarfer sy'n ystyriol o drawma, niwroamrywiaeth, diweddariadau cyfreithiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy ac asesiadau budd pennaf, yn ogystal ag amddifadu o ryddid a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhai dan 16 oed. Mae cyfraddau cwblhau modiwlau e-ddysgu, sy'n cwmpasu pynciau statudol fel diogelu, a ddarperir trwy'r system rheoli dysgu newydd Thinqi, yn parhau i gynyddu. Mae nifer y modiwlau dysgu sydd ar gael yn y

fformat hwn i staff gofal cymdeithasol hefyd yn cynyddu, gan gwmpasu rhai o'r meysydd ymarfer mwy arbenigol.

Mae nifer dda o staff gofal cymdeithasol wedi manteisio unwaith eto ar ddatblygiad proffesiynol sydd wedi'i anelu at ddarparu reolwyr a rheolwyr presennol, a gynigir trwy'r Academi Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Mae llawer o'r ymgeiswyr wedi symud ymlaen i gofrestru a chwblhau cymwysterau y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth, gan gynnwys hyd at Lefel 7 bellach, a gyflwynir mewn partneriaeth â'r coleg lleol.

Academi Gofal a Gwaith Cymdeithasol

Mae'r Academi Gofal, y rhaglen gyntaf o'i bath yng Nghymru, bellach wedi'i hen sefydlu ac mae'n parhau i chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu gweithlu gofal cymdeithasol cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Hyd yn hyn, mae 18 o unigolion wedi cael eu cefnogi drwy'r rhaglen, gyda phedwar yn symud ymlaen at gymhwyster gwaith cymdeithasol ar hyn o bryd, gan gyfrannu'n uniongyrchol at gapasiti'r gweithlu dros y tymor hwy a chynllunio olyniaeth o fewn gofal cymdeithasol.

Mae ein strategaeth 'datblygu ein hunain' yn parhau i fod yn llwyddiant drwy gefnogi unigolion i ddilyn cyrsiau gradd y Brifysgol Agored mewn gwaith cymdeithasol rhan-amser a rhaglenni meistr amser llawn ym mhrifysgolion Abertawe a Chaerdydd, gyda disgwyl i 34 gymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol dros y 12 mis nesaf.

Profiad Gwaith

Rydym yn cefnogi unigolion yn weithredol i ennill profiad gwaith mewn gofal cymdeithasol, a hyrwyddir drwy'r dudalen profiad gwaith bwrpasol ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin, gan gydnabod y rôl hanfodol y mae'r cyfleoedd hyn yn ei chwarae wrth ysbrydoli gweithwyr proffesiynol y dyfodol a gwella sgiliau o fewn y sector.

Yn ogystal, rydym hefyd yn cefnogi prosiect "Byd go iawn dysgu" wedi'i dargedu mewn partneriaeth ag Ysgol Dyffryn Aman. Fel rhan o'r fenter hon, mae disgyblion Blwyddyn 10 yn mynychu lleoliadau profiad gwaith gyda'r nod o gwblhau prosiect strwythuredig. Gall disgyblion ddewis lleoliadau gofal cymdeithasol yn ardal Rhydaman a chynnwys lleoliadau fel cynllun gofal ychwanegol Tŷ Dyffryn a gwasanaethau dydd Ffordd y Faenor.

Mae'r prosiect yn galluogi disgyblion i ddatblygu sgiliau ymarferol, ennill gwybodaeth benodol i'r sector, a gwella eu dealltwriaeth o ddisgwyliadau proffesiynol o fewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael profiad ymarferol ac ystyrlon wrth gefnogi eu dysgu, eu hyder, a'u dyheadau gyrfa yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg Sir Gâr i gynnig cyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr i ddisgyblion mewn lleoliadau gwaith cymdeithasol, gan ehangu eu hamlygiad i'r sector ymhellach a gwella eu rhagolygon gyrfa.

Adnoddau Ariannol

	2024–25	2025–26	Symudiad
	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	41,186	44,694	3,508
Strategaeth gwasanaeth – gwasanaethau cymdeithasol i oedolion	892	792	-100
Pobl hŷn (65 oed a throsodd), gan gynnwys pobl hŷn â salwch meddwl	66,470	66,472	2
Oedolion o dan 65 oed sydd ag anabledd corfforol neu amhariad ar y synhwyrau	7,480	9,031	1,551
Oedolion o dan 65 oed ag anableddau dysgu	45,443	50,405	4,962
Oedolion o dan 65 oed sydd ag anghenion iechyd meddwl	8,855	10,397	1,542
Gwasanaethau cymdeithasol eraill i oedolion	1,376	1,421	45

Yn gyffredinol, mae'r cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol yn y gyfarwyddiaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ychwanegedd sy'n cael ei adlewyrchu'n rhannol yn yr angen i gynyddu cyfraddau'r dreth gyngor yn yr awdurdod. Mae hyn yn rhannol adlewyrchu proffil y galw ar draws gofal cymdeithasol ond mae hefyd yn adlewyrchu newidiadau fel cyfraniadau yswiriant gwladol gan gyflogwyr. Mae'r gyfarwyddiaeth yn parhau i fod yn gyfrifol, ynghyd â'r cyfarwyddiaethau eraill, am nodi a chyflawni arbedion effeithlonrwydd, yng nghyd-destun amgylchiadau cyllidebol heriol parhaus i'r awdurdod. Yn 25/26, rydym wedi cael trafferth cyflawni rhai o'n hymrwymiaadau, yn enwedig yn wyneb galw gweithredol a chymhlethdod cynyddol. Wrth symud i mewn i 26/27, byddwn unwaith eto'n nodi cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd, arloesedd a gwelliannau, gyda'r nod deul o ddarparu gwasanaethau gwell i'n cwsmeriaid a chyflawni gwell gwerth am arian i bwrs y wlad.

Perfformiad

Isod mae'r Fframwaith Perfformiad ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, sy'n nodi'r wybodaeth rydym yn ei monitro ac yn adrodd arni i Lywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn, yn unol â gofynion statudol. Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer pob mesur.

Gwasanaethau Oedolion

Cyfeirnod y mesur	Mesur	Ffigurau diwedd y flwyddyn
AD/001a	Nifer y cysylltiadau ar gyfer oedolion a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn	17,729
AD/001b	Nifer y cysylltiadau newydd a dderbyniwyd ar gyfer oedolion gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn	14,891
AD/002	Nifer y cysylltiadau ar gyfer oedolion a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gymorth	2,092
AD/004	Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn	5,913
AD/005a	Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth y gellid diwallu'r anghenion	1,723
AD/005b	Roedd modd diwallu anghenion drwy unrhyw ddulliau eraill	3,548
AD/005c	Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu	642
AD/012a	Nifer yr oedolion â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth	3,301
AD/012b	Nifer yr oedolion â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth a chynllun cymorth gofalwr lle mae gan yr oedolyn ei anghenion a'i gyfrifoldebau gofal a chymorth ei hun fel gofalwr	58
QS1	Nifer yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi	698
QS2	Nifer yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac sydd â phegyn gofal llai	424
QS3	Oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i gartrefi gofal preswyl	86
QS4	Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol	92.45%

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Cyfeirnod y mesur	Mesur	Ffigurau diwedd y flwyddyn
CH/001	Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd ar gyfer plant gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn	22,431
CH002	Nifer y cysylltiadau ar gyfer plant a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gymorth	5,730
CH/006	Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn	2,157
CH/007	Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle: <ul style="list-style-type: none"> a. Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth y gellid diwallu'r anghenion b. Roedd modd diwallu anghenion drwy unrhyw ddulliau eraill 	515 1,249
CH/015	Nifer y plant â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2026	929
QS1	Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn yr amserlenni statudol	58.7
QS2	Canran yr ailgofrestru plant ar gofrestrau amddiffyn plant awdurdodau lleol	8.5
QS3	Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd, yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth, wedi profi un neu fwy o newidiadau yn yr ysgol yn ystod cyfnodau o dderbyn gofal nad oeddent oherwydd trefniadau pontio	4.2
QS4	Canran y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o ofal yn ystod y flwyddyn	14.5
QS5	Canran yr holl bobl sy'n gadael gofal sydd wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn	2.7

Data Diwedd y Flwyddyn



Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno ystod o fetrigau gweithgaredd allweddol sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol a gomisiynwyd a statudol. Mae'r dangosyddion hyn yn darparu gwybodaeth bwysig am y galw am wasanaethau, eu darpariaeth a'u cyrhaeddiad, ac yn helpu i ddangos sut mae gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi pobl i gyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar dueddiadau dros amser, lefelau angen, a graddfa'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'r darluniadau canlynol wedi'u cynnwys i gefnogi tryloywder ac atebolrwydd, gan ddangos sut mae adnoddau

gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu defnyddio a lle mae pwysau, newidiadau yn y galw a meysydd blaenoriaeth yn dod i'r amlwg.


Gwasanaethau a Gomisiynwyd

****Sylwch fod y graff isod hyd at 31 Mawrth ac yn cwmpasu cyfnod o 13 mlynedd.****




Mae'r ddau graff uchod yn dangos sut rydym wedi cynyddu'n raddol faint o ofal cartref rydym yn ei ddarparu dros y pedair blynedd diwethaf, sy'n cyfateb i ostyngiad yn nifer y bobl sy'n defnyddio gwelyau mewn cartrefi gofal. Mae hyn yn golygu ein bod yn cefnogi mwy a mwy o bobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain, gan gynnal lefelau o annibyniaeth a thrwy hynny gefnogi eu hurddas a'u llesiant.

Mae'r darluniadau isod yn dangos nifer yr oedolion a'r plant sy'n derbyn taliadau uniongyrchol.




O ran oedolion, rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2025, gwelsom nifer o becynnau a oedd wedi dod i ben oherwydd bod cleientiaid wedi marw ac nad oedd angen datgomisiynu pecynnau a gwasanaethau mwyach. Bu gostyngiad bach yn nifer y taliadau uniongyrchol. Mae hyn oherwydd lleoliad y cleient mewn ardaloedd gwledig a nifer yr oriau sydd eu hangen er mwyn dod o hyd i gynorthwydd personol addas. Fel arall, lle bu pecynnau mawr o daliadau uniongyrchol o fewn yr ardaloedd trefol, rydym wedi bod yn fwy llwyddiannus wrth recriwtio cynorthwywyr personol. Mae nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer taliadau uniongyrchol wedi bod yn llif cyson, ac mae cael capasiti o fewn y tîm i brosesu wedi bod yn her.




O ran plant, mae'r data'n dweud wrthym ein bod yn cefnogi mwy a mwy o blant ag anableddau a'u teuluoedd gyda thaliadau uniongyrchol, gan alluogi mwy o ddewis a hyblygrwydd yn y gofal a'r cymorth maen nhw'n eu derbyn, gan wella annibyniaeth a darparu seibiant a chymorth sydd eu hangen yn fawr.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y plant sy'n derbyn gofal, a nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Bu cynnydd cyson a chynaliadwy yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ers 2021/22, ac mae hyn yn adlewyrchu tuedd genedlaethol yng Nghymru, wrth i'r galw wrth y drws ffrynt gynyddu a chymhlethdod yr angen gynyddu, ac felly mae'n dilyn bod nifer y

plant mewn gofal, neu y mae eu henwau'n cael eu hychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant, hefyd yn cynyddu. Mae'n dal yn wir mai Sir Gaerfyrddin sydd â'r gymhareb isaf o blant mewn gofal fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru.



Mae'r graff isod yn dangos nifer y lleoliadau preswyl a lleoliadau byw â chymorth rydyn ni'n eu darparu ac yn eu comisiynu ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae cost fisol darparu'r lleoliadau hyn wedi dyblu yn ystod y flwyddyn ac mae hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar gyllideb y gyfarwyddiaeth. Gall lleoliadau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc fwyaf cymhleth gostio dros £10,000 yr wythnos, gyda rhai lleoliadau ar achlysuron prin yn llawer uwch na'r gost honno. Mae lleoliadau o'r fath fel arfer yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod wneud trefniadau brys tymor byr, wrth ddefnyddio staff asiantaeth, ac mae hyn i gyd yn dod ar gost chwyddedig i'r gyfarwyddiaeth.



Crynodeb o Adborth a Chamau Gweithredu



Yn unol â'n hymrwymiad i dryloywder ac atebolrwydd, rydym wedi nodi ein prif nodau ac amcanion ar gyfer 2024 i 2025. Mae'r adran hon yn crynhoi'r ymrwymïadau a wnaed yn ystod y flwyddyn a'r cynnydd a gyflawnwyd.



Fe ddywedon ni:

Comisiynu a
Chymorth
Busnes

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid tai a phartneriaid eraill i ddatblygu ystod o gynigion llety i gefnogi pobl i fyw'n dda, gyda modelau gofal a chymorth sydd â hyrwyddo annibyniaeth a chanlyniadau wrth wraidd eu gwaith.



Comisiynu a
Chymorth
Busnes

Byddwn yn cyfrannu'n weithredol at ddatblygu strategaeth gofawyr ranbarthol a chynllun gweithredu lleol cysylltiedig ar gyfer ei gweithredu.



Fe wnaethom ni:

Mewn partneriaeth â gwasanaethau tai a rheoli gofal, a darparwyr gofal a chymorth allanol, rydym wedi datblygu chwe eiddo newydd sy'n darparu 36 uned o lety. Mae gweithredu'r fframwaith newydd ar gyfer gofal a chymorth wedi galluogi darparwyr i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sydd wedi'u personoli. Mae'r data anghenion o fewn y cynllun llety wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu galw newydd a datblygiadau sy'n dod i'r amlwg. Ar ben hynny, mae'r tîm comisiynu wedi cryfhau'r berthynas â'r adran gynllunio i gefnogi cyflenwad addas o eiddo newydd, sy'n cyd-fynd â'r proffil anghenion o fewn cynllun anghenion llety Sir Gaerfyrddin a'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer Gorllewin Cymru.

Mae'r Cynllun Strategol Gofawyr Rhanbarthol wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi ar wefan Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru. Yn lleol, mae pob partner wedi datblygu cynllun gweithredu i gwmpasu a mesur gweithgareddau i gyflawni'r blaenoriaethau strategol. Caiff cynnydd ei gofnodi'n rheolaidd gan Grŵp Datblygu

			Gofalwyr Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o gomisiynwyr Cyngor Sir Caerfyrddin, cynrychiolydd o wasanaethau rheoli gofal, a Fforwm Gofalwyr Sir Gaerfyrddin.
Comisiynu a Chymorth Busnes	Byddwn yn cyfrannu'n weithredol at ddatblygu strategaeth atal ar gyfer gofal cymdeithasol drwy barhau i weithredu fframwaith y trydydd sector, sydd wedi creu pum canolfan gymunedol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu trafnidiaeth gymunedol.		Mae'r strategaeth wedi'i chwblhau ac yn y camau olaf o'i chyhoeddi. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu trefniadau lleol yn eu lle a dyheadau datblygu. Mae Grŵp Llywio'r Gwasanaethau Ataliol Cymunedol yn olrhain cynnydd a chyfleodd i gyflawni'r bwriadau strategol ar lefel weithredol, gyda mewnbwn gan bartneriaid y trydydd sector, cynrychiolwyr dinasyddion a rhanddeiliaid.
Gwasanaethau Integredig	Datblygu un pwynt mynediad ar gyfer gofal brys ac ymateb i argyfyngau a fydd ar gael saith diwrnod yr wythnos(8am–8pm).		Mae rhai elfennau o wasanaethau sy'n rhan o'r un pwynt mynediad sy'n gweithredu saith diwrnod yr wythnos. Mae gwaith yn mynd rhagddo, dan arweiniad y bwrdd iechyd, i ddatblygu un pwynt mynediad cwbl weithredol, saith diwrnod yr wythnos. Bydd hyn yn cynnwys uwch-ymarferwyr parafeddygol, uwch-ymarferwyr nyrsio, a rhywfaint o therapi, yn ogystal â'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd. Cyflwynwyd yr achos busnes llawn i'r bwrdd iechyd cyhoeddus ddechrau 2026 i'w ystyried a chytunwyd ar y buddsoddiad gofynnol i redeg y gwasanaethau saith diwrnod hyn.
Gwasanaethau Integredig	Byddwn yn datblygu cynllun datblygu'r gweithlu cadarn ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol.		Mae cynlluniau gweithlu wedi'u datblygu ac yn cael eu monitro gan y gwasanaethau bob chwarter ynghyd â chylch monitro'r cynllun busnes. Gwneir gwaith pellach yn 26/27 i ystyried rôl barhaus ein Hacademi Gofal ac i

			ystyried yr heriau sydd o'n blaenau, gan alluogi cynllunio i ddigwydd i fynd i'r afael â'r heriau hynny i'r gweithlu.
Gofal Cymdeithasol i Oedolion	Byddwn yn cynyddu nifer yr unedau llety 15% o fewn y 12 mis nesaf i ddiwallu ein galw newydd a chefnogi pobl sy'n camu i lawr o ofal preswyl.		Mae'r tîm comisiynu wedi gweithio'n agos gyda darparwyr tai mewnol ac allanol i ddatblygu eiddo yn unol â'r anghenion a nodwyd yn y cynllun llety, gan gefnogi pobl i gamu i lawr o ofal preswyl. Arweiniodd y dull cydweithredol hwn at 11 uned newydd yn dod ar gael.
Gofal Cymdeithasol i Oedolion	Byddwn yn sefydlu chwe chyfleuster byw â chymorth newydd erbyn diwedd mis Mawrth 2026, gan ddarparu llety, gofal a chymorth ychwanegol i 25 o bobl eraill.		Mae chwe eiddo newydd wedi'u datblygu sy'n darparu 36 uned o lety. Mae tri eiddo wedi'u meddiannu a bydd y tri eiddo sy'n weddill yn cael eu meddiannu cyn gynted ag y bydd yr asesiadau wedi'u cwblhau.
Gofal Cymdeithasol i Oedolion	Byddwn yn datblygu darpariaeth gofal cartref mewnol gynaliadwy ar draws grwpiau poblogaeth drwy recriwtio a hyfforddi 25 o weithwyr gofal cartref newydd erbyn mis Medi 2025.		Ers mis Ebrill 2025, rydym wedi recriwtio 55 o staff newydd i weithio o fewn ein gwasanaeth gofal cartref mewnol. O'r rhain, mae 48 wedi dechrau yn y swydd ac mae saith yn mynd trwy wiriadau cyn-gyflogaeth ar hyn o bryd. Mae 30 o staff wedi gadael eu swyddi yn ystod y cyfnod hwn. Felly, bu cynnydd net o 25 o staff.

Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir / Hyrwyddo a Gwella Llesiant y Rhai Rydym yn eu Helpu

Gofal Cymdeithasol i Oedolion

O fewn yr is-adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion, ein gweledigaeth yw galluogi pobl i fyw bywydau annibynnol a boddhaus yn eu cymunedau eu hunain. Rydym yn ymdrechu i leihau dibyniaeth ar ofal preswyl lle bynnag y bo modd, gan ganolbwyntio yn hytrach ar gymorth wedi'i deilwra sy'n grymuso unigolion i aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i urddas, dewis a chynhwysiant. Rydym yn bwrw ymlaen â phrosiectau sy'n cryfhau cymorth yn y gymuned ac yn gwella canlyniadau i bobl ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl. Drwy gydweithio â phartneriaid tai, comisiynu ac iechyd, rydym eisoes wedi datblygu cynlluniau llety arloesol ac mae gennym raglen uchelgeisiol ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Rydym yn cydnabod yr heriau mewn darpariaeth gofal cartref ac wedi ymrwymo i ddatblygu'r gweithlu er mwyn sicrhau cymorth amserol a diogel i oedolion agored i niwed. Mae hyn yn ganolog i leihau oedi mewn ysbytai a gwella diogelwch cymunedol.

Prif Gyflawniadau 2025/26

Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol wedi ymgorffori gwasanaeth atal a llesiant mynediad agored sy'n darparu ymyrraeth gynnar a chymorth i bobl. Bydd y gwasanaeth yn cydweithio ymhellach â'r GIG dros y flwyddyn nesaf wrth iddynt ddatblygu eu model mynediad agored. Mae gweithwyr cymdeithasol pontio ar waith o fewn y timau iechyd meddwl cymunedol i wella'r llwybrau i bobl ifanc sy'n symud i wasanaethau iechyd meddwl i oedolion. Mae tîm o weithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy ar waith sydd â digon o staff, ac mae hynny'n symud i fodel gweithredu newydd fel hwb gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy.

Mae gan yr adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion fframwaith sicrhau ansawdd cryf a sefydledig i sicrhau bod gwasanaethau'n ddiogel ac yn effeithiol ac yn gwella'n barhaus. Mae hyn yn cynnwys archwiliadau rheolaidd o arfer a gwaith achos, monitro perfformiad yn erbyn dangosyddion statudol a lleol, ac adolygiadau thematig i nodi dysgu a meysydd i'w gwella. Cefnogir gweithgarwch sicrhau ansawdd gan drefniadau llywodraethu clir, gyda goruchwyliaeth gan uwch-arweinwyr ac adrodd rheolaidd i fforymau rheoli. Mae adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr ac asiantaethau partner yn cael ei gasglu'n weithredol a'i ddefnyddio i lywio datblygiad gwasanaethau, ochr yn ochr â dysgu o gwynion, canmoliaeth, gweithgarwch diogelu, ac arolygiadau allanol. Gyda'i gilydd, mae'r prosesau hyn yn rhoi sicrwydd bod gwasanaethau'n parhau i ganolbwyntio ar yr unigolyn, yn cydymffurfio â deddfwriaeth, ac yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion a chymunedau.

Atal Hunanladdiad ac Ymateb Cyflym

Mae'r adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi cyflwyno protocol ymateb cyflym ar gyfer hunanladdiad tybiedig, gan sicrhau allgymorth a chymorth ar unwaith i unigolion a theuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan hunanladdiad. Mae'r is-adran yn arwain cydweithio rhanbarthol ar y protocol ymateb cyflym.

Mae cyllid wedi'i sicrhau tan fis Mawrth 2027 ar gyfer cydlynnydd atal hunanladdiad pwrpasol i arwain ar waith atal hunanladdiad ar draws yr awdurdod lleol. Mae'r Grŵp Cyflenwi Atal Hunanladdiad wedi'i hen sefydlu, ac mae'r is-adran yn arwain gwaith amlasiantaeth mewn ymateb i leoliadau sy'n peri pryder a chymorth cymunedol.

Diogelu

Mae'r tîm Diogelu Oedolion yn arwain ar ystod sy'n tyfu o gyfrifoldebau, gan gynnwys diogelu oedolion a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid Sir Gaerfyrddin, a threfniadau diogelu corfforaethol Sir Gaerfyrddin. Mae'r gwasanaeth wedi lleihau nifer y bobl sy'n aros am asesiad o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn sylweddol eleni ac mae wedi gwella prosesau diogelu a chynyddu nifer yr atgyfeiriadau diogelu a gwblhawyd o fewn saith diwrnod, er gwaethaf derbyn nifer cynyddol o atgyfeiriadau.

Mae'r tîm hefyd yn arwain trefniadau Channel statudol Sir Gaerfyrddin, sy'n rhan o strategaeth Prevent y DU (sicrhau cymorth amlasiantaeth cynnar i unigolion sy'n agored i gael eu denu i derfysgaeth, a mynd i'r afael â radicaliaeth). Mae'r tîm yn gwneud cyfraniad sylweddol at waith Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ac yn cymryd rhan weithredol ym mhob un o'i is-grwpiau a ffrydiau gwaith cysylltiedig, gan arwain y grwpiau hynny mewn rhai achosion.

Sefydlodd Sir Gaerfyrddin ei grŵp gweithredol lleol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn 2024 i sicrhau dull cydlynol o fynd i'r afael â phob math o gam-drin domestig, ac i ddarparu cymorth i oroeswyr. Wrth edrych ymlaen, bydd y grŵp yn canolbwyntio ar ddatblygu cynllun cyflawni lleol a fydd yn cefnogi'r strategaeth ranbarthol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Gwasanaeth Anabledd 0–25

Mae gan y Gwasanaeth Anabledd 0–25 ffocws cryf ar atal drwy ymyrraeth gynnar, cymorth i deuluoedd, a dulliau a gynlluniwyd i leihau uwchgyfeirio i wasanaethau statudol. Mae cymorth cynnar yn ganolog i fodel y gwasanaeth, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anableddau, niwroamrywiaeth neu anghenion cymhleth yn derbyn cymorth amserol a chymesur. Mae'r Tîm Cymorth Cynnar, wedi'i gryfhau trwy'r Prosiect Llwybr Niwroamrywiaeth, yn darparu cyngor, cymorth 1:1 wedi'i dargedu, gwaith grŵp a chymorth ymarferol i feithrin gwydnwch teuluoedd, lleihau unigedd ac atal argyfyngau. Mae cyflwyno gweithwyr ymyrraeth ar gyfer niwroamrywiaeth a dyrannu 40 o unigolion yn gyflym o fewn y mis cyntaf yn dangos camau rhagweithiol i fynd i'r afael â'r ôl-groniadau ac atal oedi a all waethygu amgylchiadau unigol. Mae'r dull hwn yn cefnogi

canlyniadau gwell drwy leihau'r angen am leoliadau addysg arbenigol, lleihau'r risg o chwalfa deuluol, a mynd i'r afael ag anghenion yn gynharach ac yn fwy cyfannol.

Tîm Cynnydd ac Adolygu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn Sir Gaerfyrddin wedi cryfhau'r defnydd o dechnoleg o fewn pecynnau gofal presennol, er mwyn sicrhau bod y cymorth yn gymesur, yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac yn gynaliadwy. Mae'r tîm Cynnydd ac Adolygu yn dîm amlddisgyblaethol bach sy'n rhoi cymorth i sicrhau bod pecynnau gofal yn briodol ac yn gymesur i ddefnyddwyr gwasanaeth, gan sicrhau'r annibyniaeth fwyaf posibl. Mae'r tîm yn canolbwyntio ar wella canlyniadau defnyddwyr gwasanaeth drwy adolygiadau, a thrwy ddarparu argymhellion, wrth geisio lleihau costau.

Mae technoleg wedi'i hymgorffori'n fwriadol fel rhan o asesu, cynllunio dilyniant ac adolygu, yn hytrach na'i defnyddio ar ei phen ei hun, gan gefnogi symudiad tuag at fwy o annibyniaeth ac aliniad mwy cywir o ofal ag angen. Mae rhaglen dargedig sy'n cynnwys 15 o unigolion sy'n byw â chymorth yn dangos effaith y dull hwn. Mae buddsoddiad o tua £15,000 mewn technoleg wedi darparu o leiaf £120,000 mewn manteision wedi'u gwireddu, yn bennaf drwy lai o ddibyniaeth ar ofal â thâl, llai o ymweliadau arferol ac ymweliadau nos diangen, a threfniadau cymorth mwy ymatebol.

Yn 2025/26, mae'r tîm wedi cefnogi 32 o bobl i gyflawni canlyniadau personol, gan gynnwys:

- trosglwyddo o ofal preswyl i fyw â chymorth
- camu i lawr i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain
- lleihau oriau 1:1, gyda 268 awr wedi'u harbed

Mae unigolion wedi nodi mwy o hyder, ymreolaeth a sicrwydd, tra bod pecynnau gofal wedi symud i ffwrdd o fodolau sefydlog tuag at gymorth sy'n seiliedig ar gynnydd. Mae'r gwaith hwn yn darparu tystiolaeth glir y gall cyfuno technoleg ag adolygu sy'n seiliedig ar gryfderau a goruchwyliaeth broffesiynol wella canlyniadau i unigolion wrth sicrhau manteision ariannol a system sylweddol.

Mae'r dull yn cefnogi blaenoriaethau ehangach y cyngor o ran atal ac annibyniaeth a defnydd effeithiol o adnoddau, ac yn darparu model y gellir ei ehangu ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

Buddsoddi mewn Gofalwyr

Mae gan y gwasanaeth ymrwymiad cryf i ofalwyr, gyda thimau'n cyflawni neu'n gweithio tuag at wobrau Buddsoddi mewn Gofalwyr, ac asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnig yn rheolaidd. Mae gan bob tîm bellach o leiaf un arweinydd gofalwyr, sy'n gyfrifol am hyrwyddo materion gofalwyr, rhannu gwybodaeth, a sicrhau bod timau'n parhau i fod yn ymatebol i anghenion gofalwyr. Mae'r arweinwyr hyn yn cyfarfod bob deufis ochr yn ochr â chynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd a'r trydydd sector, gan greu platfform amlasiantaeth cadarn ar gyfer gwella cymorth i ofalwyr di-dâl, cryfhau cysondeb, a rhannu'r arferion gorau. Mae gofalwyr yn cael eu cynnwys yn rheolaidd drwy fecanweithiau ymgysylltu

ffurfiol ac anffurfiol, gan sicrhau bod eu lleisiau'n dylanwadu ar gynllunio strategol ac arferion rheng flaen. Mae tystiolaeth yn tynnu sylw at y defnydd o ddigwyddiadau i ofalwyr, boreau coffi, a fforymau ymgysylltu strwythuredig, gan ddarparu cyfleoedd hygyrch i ofalwyr rannu profiadau, llunio gwasanaethau, a chyfrannu at drafodaethau sy'n canolbwyntio ar atebion.

Datblygu'r Gweithlu

Mae'r adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion bellach mewn sefyllfa gref o ran recriwtio a chadw staff ar draws pob tîm, sy'n dyst i'r ffocws rydyn ni'n ei roi i hyn drwy'r Academi Gofal, y rhaglen 'Datblygu eich Hun', gwell sefydlu, datblygiad proffesiynol parhaus, a sicrhau diwylliant cefnogol yn ein timau. Er y gallai rhagamcanion yn y dyfodol o nifer yr oedolion o oedran gweithio effeithio ar gronfa'r gweithlu, ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth mewn sefyllfa dda o ran ei gyfradd swyddi gwag.

Trawsnewid Digidol

Mae'r timau gwaith cymdeithasol wedi gweithio gyda chydweithwyr i weithredu offer deallusrwydd artiffisial digidol newydd i wella cadw cofnodion ac arbed amser proffesiynol. Mae cynlluniau peilot 'Magic Notes' a 'Sgript' wedi dangos gostyngiad o 30% yn yr amser a gymerir i gwblhau asesiadau, gyda gwerthusiad manwl o'u manteision i staff ar y gweill. Mae'r amser y mae staff yn ei dreulio ar waith gweinyddol a chadw cofnodion – er ei fod yn hanfodol – yn amser a dreulir heb weithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth. Er bod deallusrwydd artiffisial yn addo cyflawni arbedion effeithlonrwydd sylweddol, yr allwedd i'n gweithlu gofal cymdeithasol yw ei botensial i wella'r amser a dreuliwn gyda defnyddwyr ein gwasanaeth wrth feithrin perthnasoedd a chefnogi canlyniadau cadarnhaol.

Cysylltu Bywydau Gorllewin Cymru

Mae Cysylltu Bywydau Gorllewin Cymru yn darparu cymorth hyblyg, cymunedol fel dewis arall yn lle modelau gwasanaeth mwy traddodiadol, gan gyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i unigolion a chynaliadwyedd system ehangach. Darperir y gwasanaeth drwy ofalwyr sydd wedi'u hasesu a'u cymeradwyo i ddarparu ystod o opsiynau gofal a chymorth o'u cartrefi eu hunain.

Yn ystod 2025, cynhaliwyd adolygiad o ffioedd gofalwyr cysylltu bywydau, gan gynnwys ffioedd bwyd a llety a ffioedd rheoli. Gweithredwyd cynnydd i gydnabod cyfrifoldebau gofalwyr yn well ac i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y cynllun.

Nododd y gwasanaeth arbedion effeithlonrwydd sylweddol drwy ymyrraeth gynnar a defnydd creadigol o ddarpariaeth cysylltu bywydau. Roedd hyn yn galluogi atal lleoliadau preswyl neu leoliadau byw â chymorth mwy costus drwy gynnig llety amgen priodol i unigolion sydd angen cymorth hirdymor.

Cefnogodd Cysylltu Bywydau Gorllewin Cymru nifer o leoliadau brys hefyd, a reolwyd yn hyblyg i ddiwallu anghenion brys wrth gynnal ffocws ar ganlyniadau cadarnhaol a chynaliadwy. Lle bo'n briodol, datblygodd trefniadau i leoliadau tymor hwy neu gefnogi unigolion i ddychwelyd adref neu archwilio opsiynau eraill.

Safonau Ansawdd

Mae'r adran hon yn dangos cyflawniad yn erbyn safonau ansawdd 1, 2, 3, 5 a 6, gyda thystiolaeth arbennig o gryf mewn perthynas ag atal, diogelu, iechyd meddwl, annibyniaeth a chymorth yn y gymuned. (Mae rhagor o fanylion ynghylch safonau ansawdd i'w gweld yn Atodiad 1.)

Gwasanaethau Integredig

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Gwasanaethau Integredig wedi profi cynnydd nodedig yn y galw am wasanaethau cymunedol, ynghyd â chymhlethdod achosion cynyddol, oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio â chyflyrau iechyd lluosog. Mae'r her o gefnogi oedolion cymhleth sy'n byw gydag eiddilwch i gynnal annibyniaeth gartref yn parhau i fod yn ganolog i'n dull gweithredu. Mewn ymateb, rydym wedi ymrwymo i wella ein model derbyn ac asesu hirdymor, gan ganolbwyntio ar leihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau gwaith cymdeithasol mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol. Disgwylir i flaenoriaethu asesiadau cartref a chynllunio rhyddhau cynnar leihau nifer y bobl sy'n aros am ofal cartref ymhellach a lleihau derbyniadau i gyfleusterau preswyl.

Mae arloesedd yn parhau i ysgogi ein hymdrechion i reoli'r galw, lliniaru risgiau, a sicrhau diogelwch a chynaliadwyedd ein gwasanaethau. Mae ein partneriaeth integredig rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin, y bwrdd iechyd, Llesiant Delta, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a phartneriaid yn y trydydd sector yn allweddol wrth ddatblygu atebion gofal cymunedol ataliol a hirdymor. Mae ein dull ni'n cyfrannu'n weithredol at leihau'r pwysau ar ein hysbytai ac ar Wasanaethau Ambiwlans Cymru.

Prif Gyflawniadau 2025/26

Digwyddodd datblygiad pellach o'n Hwb Cartref yn Gyntaf – ein tîm amlddisgyblaethol sy'n cefnogi osgoi derbyniadau a rhyddhau cynnar â chymorth – gyda chyflwyno ein 'Ward Rithwir' yn Sir Gaerfyrddin. Rydym wedi sefydlu ac aeddfedu'r model Ward Rithwir, gan alluogi trosglwyddo cleifion yn ddiogel o ysbytai aciwt, ac osgoi derbyniadau trwy brotocol 'stack attack' Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer niferoedd uchel o alwadau 999, trwy ddarparu gofal cymunedol. Mae hyn wedi lleihau nifer y bobl sy'n aros yn yr ysbyty ac wedi osgoi derbyniadau diangen trwy fonitro clinigol rhagweithiol a gofal yn y cartref. Mae hyn yn lleihau'r niferoedd a allai waethygu ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty ac aros am gyfnod hir, ac a fyddai angen gofal cymdeithasol hirdymor wedi hynny.

Rydym wedi gweithio'n rhagweithiol gyda chartrefi gofal i roi cyngor ac arweiniad i breswylwyr a allai brofi cwymp, gan sicrhau bod cynlluniau gofal ymlaen llaw ar waith, i gadw pobl gartref lle mae'n ddiogel gwneud hynny ac osgoi eu cludo i'r ysbyty.

Rydym wedi datblygu ein rhaglenni ailalluogi yn y cartref ac aseswyr dibynadwy, trwy adlinio adnoddau i gryfhau gwasanaethau ailalluogi a darparu hyfforddiant arbenigol i staff newydd. Fe wnaethom hefyd gyflwyno hyfforddiant aseswyr dibynadwy i staff y GIG, gan wella effeithlonrwydd ac integreiddio asesu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym wedi trawsnewid y ddarpariaeth therapi mewn gwelyau yn Ysbyty Dyffryn Aman ac Ysbyty Bwthyn Llanymddyfri, gan leihau hyd arosiadau a gwella canlyniadau adfer trwy ofal integredig dan arweiniad therapi.

Rydym wedi ehangu llwybrau hyfforddi mewnol mewn gwaith cymdeithasol drwy'r Academi Gofal a'r Fframwaith Cynnydd, i fynd i'r afael â phrinder yn y gweithlu, gwella cadw staff, a chreu dilyniant gyrfa clir, gan ddefnyddio'r model datblygu eich hun hefyd,

ac ar hyn o bryd mae gennym wyth o fyfyrwyr yr ydym yn eu hariannu i ymgymryd â gradd mewn gwaith cymdeithasol. Bydd yr Academi Gofal yn cael ei hadolygu yn ystod 26/27 i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn rhaglen effeithiol ac yn gynaliadwy yn ariannol ar gyfer datblygu'r gweithlu.

Mae ein Rhaglen Rhyddhau Amser i Ofalu wedi rhyddhau 1,354 awr o ofal cartref yn ôl i'r system drwy hyrwyddo annibyniaeth a lleihau dibyniaeth ar ofal a chymorth.

Rydym wedi dylanwadu'n rhagweithiol ar bolisi Llywodraeth Cymru ar daliadau uniongyrchol ar gyfer iechyd ac wedi sefydlu fframweithiau llywodraethu cryf drwy'r Grŵp Gweithrediadau Taliadau Uniongyrchol.

Rydym wedi llwyddo i leihau nifer y bobl sy'n mynd i leoliadau preswyl hirdymor a thymor byr ac wedi'u cefnogi i aros yn annibynnol ac yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain.

Rydym wedi cychwyn adolygiad o'n gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth, sef y drws ffrynt i wasanaethau cymunedol, ac rydym wedi dechrau ailgynllunio'r gwasanaeth. Bydd y ffocws ar symleiddio llwybrau a phrosesau, i wneud mynediad yn haws i'r cyhoedd ac i weithwyr proffesiynol, wrth ddatblygu cynnwys ataliol ar ein gwefan. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cyngorwyr proffesiynol yn canolbwyntio ar roi cyngor a chymorth a bod gwybodaeth ar gael yn llawer haws.

Mae ein Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Integredig yn parhau i gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd o'r adolygiad trawsnewid. Rydym wedi gweithredu 37 o'r 67 o gamau gweithredu hyd yn hyn, gan gryfhau gwydnwch a chydlyniaid gwasanaethau ar draws y rhanbarth. Mae ein prosiect dosbarthu'r un diwrnod / drannoeth wedi galluogi darpariaeth cyfarpar brys ar gyfer gofal lliniarol, osgoi derbyniadau i'r ysbyty, a hwyluso rhyddhau cleifion. Gyda chymorth ein cydweithwyr ym Mhartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, rydym wedi gallu dangos maint y gost sy'n cael ei hosgoi gan y gwasanaeth cyfarpar, gan arbed adnoddau i'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Rydym wedi llwyddo i ddiffinio a chytuno ar [strategaeth atal deng mlynedd Byw'n Dda yn Sir Gaerfyrddin](#),¹ gan sicrhau ei bod yn mynd i'r afael ag anghenion pob grŵp oedran. Bydd cynlluniau gweithredu a grwpiau gweithredu yn cael eu datblygu i ysgogi'r uchelgeisiau a osodwyd yn eu blaen. Bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn y ddarpariaeth gwasanaethau mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd, y trydydd sector a'r gymuned.

Mae'r Tîm Amhariad ar y Golwg yn parhau i wneud camau breision o ran cefnogi unigolion ag amhariadau ar y golwg, er gwaethaf cynnal rhestr aros hir ar gyfer asesiadau amhariad ar y golwg. Yn nodedig, rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid sy'n ein galluogi i brynu ystod eang o gyfarpar sy'n gwella bywyd y rhai sydd ag amhariad ar y golwg. Mae hyn yn cynnwys dyfeisiau arloesol fel sbectol Meta, microdonnau sy'n siarad ac unedau Alexa, sydd i gyd yn cyfrannu'n fawr at wella annibyniaeth ac ansawdd bywyd. Mae'r datblygiadau hyn yn pwysleisio ein hymrwymiad parhaus i gael

¹ <https://democracy.carmarthenshire.gov.wales/mgConvert2PDF.aspx?ID=96459>

gwared ar rwystrau a meithrin hygyrchedd o fewn ein cymuned (gweler yr astudiaeth achos yn Atodiad 2). Rydym hefyd wedi buddsoddi yn y tîm ac wedi penodi dau arbenigwr adsefydlu dan hyfforddiant yn llwyddiannus.

Safonau Ansawdd

Mae'r adran hon yn dangos cyflawniad yn erbyn safonau ansawdd 1, 2, 3, 5 a 6, gyda thystiolaeth arbennig o gryf mewn perthynas ag atal, diogelu, iechyd meddwl, annibyniaeth a chymorth yn y gymuned. (Mae rhagor o fanylion ynghylch safonau ansawdd i'w gweld yn Atodiad 1.)

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

O fewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau, lle bo'n ddiogel gwneud hynny, bod plant a phobl ifanc yn parhau i fyw gyda'u teuluoedd ac o fewn eu cymunedau. Mae ein hadran wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cefnogi ac yn grymuso teuluoedd, gan sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc ffynnu mewn amgylchedd diogel a meithringar.

Bydd ein cynlluniau busnes ar gyfer y flwyddyn nesaf yn parhau i roi pwyslais ar arloesi a chydweithio, a byddant yn blaenoriaethu ymyrraeth gynnar, atal, a chymorth i deuluoedd. Rydym yn cydnabod y gall cymorth amserol newid trywydd sefyllfa a chanlyniadau plentyn, person ifanc a theulu yn sylweddol. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid ar draws yr awdurdod lleol ac o fewn y gyfarwyddiaeth, gan chwilio am gyfleoedd newydd i gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd.

Mae mentrau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu ein gweithlu gofal cymdeithasol ein hunain fel rhan o gynllun tymor hwy i sicrhau bod gennym y nifer cywir o staff i gefnogi'r galw cynyddol am wasanaethau
- Gweithio i ddefnyddio atebion digidol i gefnogi ein staff i wneud y pethau sydd bwysicaf wrth gefnogi teuluoedd
- Gweithio tuag at wella ein prosesau asesu. Bydd hyn yn cefnogi ein gallu i nodi anghenion plant a theuluoedd yn well yn y cyfnod cynharaf
- Ehangu ein hystod o gymorth i deuluoedd a buddsoddi ymhellach mewn hyfforddiant a datblygiad i'n staff i sicrhau bod y gweithlu'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn meddu ar adnoddau i gefnogi teuluoedd i oresgyn heriau a rhwystrau

Rydym hefyd wedi ymrwymo i wrando ar leisiau plant a theuluoedd, gan sicrhau bod eu hadborth yn llywio ein cynlluniau darparu gwasanaethau a gwella. Drwy feithrin diwylliant o welliant ac arloesedd parhaus, ein nod yw creu gwasanaeth ymatebol a gwydn a all addasu i anghenion esblygol ein cymuned.

Prif Gyflawniadau 2025/26

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod o gynnydd ac arloesedd sylweddol ar draws ein gwasanaethau, gan adlewyrchu ein hymrwymiad diwro i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Drwy gyfuniad o fentrau strategol, datblygu'r gweithlu a phartneriaethau cydweithredol, rydym wedi cryfhau ein gallu i ddarparu cymorth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae ein ffocws wedi cynnwys gwella gallu arweinyddiaeth a sefydlu modelau arfer gorau sy'n ymateb i anghenion esblygol ein cymunedau. Drwy flaenoriaethu ymyrraeth gynnar, gwydnwch y gweithlu a thrawsnewid gwasanaethau, rydym wedi parhau i gyflawni gwelliannau mesuradwy sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Cynnal y safle uchaf yng Nghymru o ran y boblogaeth plant sy'n derbyn gofal isaf, sy'n tystio i'n hymrwymiad parhaus i weithio gyda phlant a phobl ifanc i reoli risg a gwneud newidiadau fel y gall plant a phobl ifanc aros gyda'u teuluoedd.
- Cyflawni canlyniadau arolygu cadarnhaol ar gyfer cartref plant seibiannau byr Llys Caradog, gyda sgoriau uchel am lesiant, gofal a chymorth, a'r amgylchedd.
- Lansio rhaglen datblygu rheolwyr tîm, gan wella sgiliau arweinyddiaeth a thwf proffesiynol o fewn y gwasanaeth.
- Gwireddu arbedion effeithlonrwydd yng nghyllideb y Swyddfa Gartref, gan alluogi gwell cymorth i'r Tîm Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches a phobl ifanc.
- Trosglwyddo yn ddi-dor i system reoli electronig Eclipse, gan wella rheoli gwybodaeth a darparu gwasanaethau.
- Sefydlu'r gwasanaeth cymorth cynnar, gan gryfhau partneriaethau a darparu cymorth amserol i atal pobl rhag gorfod troi at wasanaethau statudol.
- Datblygu canllawiau ymarfer a chyflwyno hyfforddiant ar y Model Adfer ar ôl Trawma i gefnogi gwaith effeithiol gyda phobl ifanc yn eu harddegau.
- Ehangu llety â chymorth, gan greu bron i 30 o leoliadau i gynnig dewisiadau amgen diogel i bobl ifanc pan na allant aros gyda'u teuluoedd.
- Ehangu gofal plant Cyfnod 3 Dechrau'n Deg yn llwyddiannus, gan ragori ar ein targed o 250 o blant yn cael mynediad at 12.5 awr o ofal plant yr wythnos.
- Cyflawni canlyniadau arolygu cadarnhaol ar gyfer cartref plant Hafan, gyda sgôr 'dda' ar draws pob un o'r pedwar maes arolygu.

Comisiynu

Prif Gyflawniadau 2025/26

Comisiynu

Mae comisiynu, cymorth busnes a chyllid yn ganolog i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol ar draws y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, gyda phwyslais cryf ar atal, ymyrraeth gynnar, a datblygu cymunedau gweithredol, cysylltiedig a dyfeisgar. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o annibyniaeth pobl, gan alluogi unigolion i wneud pethau drostynt eu hunain lle bynnag a phryd bynnag y bo modd. Lle mae angen gofal tymor hwy, mae gwasanaethau wedi'u cynllunio i sicrhau bod gan bobl fwy o lais, dewis a rheolaeth dros sut mae eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth, rydym wedi gweithredu'r [Cod Ymarfer ar gyfer Safonau Comisiynu newydd](#)² yn ein harferion o fewn comisiynu. [Fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: cod ymarfer | LLYW.CYMRU](#)

Un o ofynion y cod statudol yw adrodd ar gydymffurfedd yn adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr. Mae tîm comisiynu Sir Gaerfyrddin wedi cwblhau eu hunanasesiad cyntaf yn erbyn yr offeryn comisiynu, er mwyn ystyried ei gyflawniadau a nodi meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae dadansoddiad o anghenion hyfforddiant hefyd wedi'i gwblhau i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn yr hyfforddiant a'r canllawiau priodol i gefnogi gweithredu'r fframwaith a'i ddarpariaethau.

Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid tai a phartneriaid eraill i ddatblygu ystod o lety â chymorth a fydd yn galluogi pobl i fyw'n annibynnol. Mae chwe chynllun newydd sy'n cynnig cyfanswm o 32 uned wedi'u datblygu. Rydym hefyd wedi datblygu a gweithredu cytundeb safonau llety newydd sy'n nodi disgwyliadau landlordiaid wrth ddarparu llety i oedolion agored i niwed.

Rydym wedi cynnal adolygiad comisiynu llawn o wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai a ariennir gan Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru. Mae model cymorth tai newydd wedi'i ddatblygu sy'n cyd-fynd â Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Sir Gaerfyrddin a'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym. Cwblhawyd ymarfer tendro llawn, ac mae contract a manyleb gwasanaeth newydd wedi'u rhoi ar waith.

Mewn ymateb pellach i'r uchod, mae rhaglen adolygu comisiynu ar y gweill ar gyfer gwasanaethau llety â chymorth sy'n derbyn cyllid gan y Grant Cymorth Tai. Mae grŵp prosiect wedi'i sefydlu ac mae amserlenni ar gyfer y gwaith wedi'u cytuno. Disgwylir i'r gwaith hwn ddod i ben ym mis Rhagfyr 2026, gyda'r argymhellion yn cael eu bwrw ymlaen ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

Yn unol â'n hymrwymiad i gefnogi a datblygu marchnad amrywiol, bu twf sylweddol yn y datblygiad o fentrau micro-ofal a mentrau cymdeithasol ar draws y rhanbarth. Mae 165 o wasanaethau micro-ofal yn y rhanbarth, yn darparu dros 3,700 awr o gymorth yr

² <https://www.llyw.cymru/fframwaith-cenedlaethol-ar-gyfer-comisiynu-gofal-chymorth-cod-ymarfer>

wythnos. Mae'r gwasanaethau hyn yn galluogi pobl i gael mynediad at ddewis ehangach o ran sut mae eu hanghenion llesiant yn cael eu diwallu. Ar ben hynny, amcangyfrifir bod Sir Gaerfyrddin yn osgoi costau o £299,187 y flwyddyn.

Rydym wedi cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth atal. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu trefniadau lleol cyfredol a dyheadau datblygu. Mae Grŵp Llywio'r Gwasanaethau Ataliol Cymunedol yn olrhain cynnydd a chyfleoedd i gyflawni'r bwriadau strategol ar lefel weithredol, gyda mewnbwn gan bartneriaid y trydydd sector, cynrychiolwyr dinasyddion a rhanddeiliaid. Mae'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y broses hon wedi ein galluogi i nodi blaenoriaethau allweddol a nodir yn yr adran uchod.

Gan adeiladu ar ddatblygiad pum canolfan gymunedol rithwir a'n gwaith ataliol ehangach gyda'r trydydd sector, rydym wedi dod o hyd i gyfleoedd ariannu ychwanegol gwerth £94,000 i ddiwallu'r galw sy'n dod i'r amlwg drwy ein agenda micro-gomisiynu. Yn ogystal â hyn, mae dyraniad grant o £1,000,000 wedi'i sicrhau ar gyfer trafndiaeth gymunedol yn Sir Gaerfyrddin, gyda mewnbwn gan Dolan Teifi a phartneriaid y Gwasanaethau Ataliol Cymunedol. Dyma wasanaethau ychwanegol a ddatblygwyd yn ystod 2025–2026:

- Gwasanaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio – wedi'i ddatblygu yn unol â dogfen Dealltwriaeth: Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru (2025–2035) gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau bod y ddarpariaeth leol yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol cenedlaethol.
- Gwasanaeth Cymorth Llesiant Ariannol – sy'n mabwysiadu dull cydlynol i helpu unigolion i reoli cyllidebau personol, gan gynnig cymorth argyfwng uniongyrchol a datblygu sgiliau tymor hwy i feithrin hyder, gwydnwch, a llesiant ariannol cynaliadwy.
- Gwasanaeth Perthnasoedd Cadarnhaol – sy'n darparu cymorth datrys gwrthdaro ac ymyrraeth gynnar i helpu dinasyddion i gynnal eu cartrefi a'u harferion beunyddiol, gan atal argyfwng a tharf trwy arweiniad ymarferol a chyfyngu.
- Gwasanaethau Cymorth Cartref Cymunedol wedi'u hailfodelu ar sail ymyrraeth gynnar – cymorth ymarferol tymor byr i hwyluso trosglwyddiad llyfn o'r ysbyty i'r cartref neu i atal rhywun rhag gorfod cael ei dderbyn i'r ysbyty a/neu ei uwchgysylltu at ofal statudol.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn datblygu ein timau i sicrhau bod gennym y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir, gan sicrhau hefyd bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl. Cynhaliwyd gweithgaredd tîm llwyddiannus yn gynharach eleni a roddodd ddealltwriaeth o swyddogaethau, rolau a chyfrifoldebau ar draws yr adran. Roedd adborth y staff yn gadarnhaol iawn. Rydym hefyd wedi adolygu ein strwythur rheoli presennol ac wedi gweithredu newidiadau i sicrhau bod meysydd cyfrifoldeb yn cyd-fynd â'r gweithgareddau craidd o fewn timau o staff.

Rydym wedi datblygu cynllun cynaliadwyedd deng mlynedd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r cynllun cynaliadwyedd wedi'i lywio gan yr asesiad o anghenion y boblogaeth a'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad. Nod y cynllun strategol yw dwyn ynghyd ddatganiad sefyllfa cyflenwad a galw lefel uchel mewn perthynas â gofal a chymorth i bobl hŷn ac oedolion o oedran gweithio. Mae'n ystyried ein proffil cyflenwad a galw presennol ac yn amlinellu'r heriau o

ran bodloni'r galwadau hyn, a'r risgiau posibl yn y farchnad, yn ogystal ag amlinellu ystod o gynigion i liniaru pwysau'r farchnad. Bwriad y cynigion ar gyfer siapio'r farchnad yw sicrhau bod gennym gyflenwad digonol yn ogystal â marchnad gytbwys: hynny yw, bod gennym gydbwysedd priodol o ddarpariaeth fewnol a darpariaeth sector annibynnol (nid-er-elw ac er elw) i ddiwallu ein gofynion yn y dyfodol ac i liniaru unrhyw risgiau o ymddygiad sy'n cael ei ysgogi gan y farchnad. Byddwn yn datblygu'r cynllun hwn i gwmpasu plant a phobl ifanc a byddwn yn adnewyddu'r data yn y cynllun yn ystod 2026/27.

O ran cyfraddau ffioedd a chynnydd chwyddiant ar gyfer 2026/27, rydym wedi ymgysylltu ac ymgynghori â'r sector gofal a chymorth mewn perthynas â phwysau chwyddiant. Mae modelau cost uned wedi'u datblygu ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn, gofal cartref, a gwasanaethau byw â chymorth. Adolygir ffioedd yn flynyddol. Defnyddir y modelau cost uned i gofnodi newidiadau chwyddiant (i fyny ac i lawr), gyda chostau'n cael eu diweddarau yn seiliedig ar bwysau cost hysbys, mynegeion chwyddiant (e.e. y Mynegai Prisiau Defnyddwyr), a chyfraddau meddiannaeth ac ati. Cynhelir yr ymarfer hwn gyda'r sector ac mae'n cynnwys ymgysylltu i geisio tystiolaeth gysylltiedig, sydd wedyn yn destun ymgynghoriad ar draws yr holl sectorau.

Comisiynu Rhanbarthol

Mae Rhan 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gomisiynu eirioli proffesiynol annibynnol a hyrwyddo mynediad at ystod o ddarpariaeth eirioli. Mae gan eiriolaeth rôl bwysig i'w chwarae mewn perthynas â llais a rheolaeth ac mae'n sail i ofynion ehangach y Ddeddf o ran llesiant, diogelu ac atal. Gall gynorthwyo pobl yn fawr i fynegi eu barn a gwneud dewisiadau gwybodus, a thrwy hynny sicrhau bod ganddynt fynediad at wasanaethau perthnasol a bod eu hawliau cyfreithiol a dynol yn cael eu parchu.

Mae [Strategaeth Eiriolaeth Oedolion – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru \(www.rpb.org.uk/cy/\)](https://www.rpb.org.uk/cy/)³ yn nodi pum maes blaenoriaeth allweddol, ac mae gwaith o fewn Rhwydwaith Eiriolaeth Gorllewin Cymru wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol.

Mae uchafbwyntiau nodedig yn cynnwys y canlynol:

- Cysylltiadau clir sefydledig rhwng comisiynwyr a darparwyr – er enghraifft, trwy fynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Eiriolaeth Gorllewin Cymru
- Cynhyrchu ac ystyried data contractau a chomisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn rheolaidd i lywio gwelliannau. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso adborth defnyddwyr ac astudiaethau achos
- Ymarferion arolwg blynyddol i fesur gwelliannau mewn comisiynu cydweithredol
- Rhaglen barhaus o sesiynau codi ymwybyddiaeth a briffiau i staff i hyrwyddo'r 'cynnig rhagweithiol'
- Cynhyrchu pecyn cymorth hunan-eiriolaeth yn ogystal â chymau ymlaen llaw hawdd eu deall

³<https://www.rpb.org.uk/cy/strategaeth-eiriolaeth-oedolion/>

- Pob darparwr eiriolaeth yn y rhanbarth yn cynnal y Marc Perfformiad Ansawdd ar gyfer gwasanaethau eirioli ac yn sicrhau bod aelodau eu tîm yn ymgymryd â'r cymhwyster eiriolaeth annibynnol sydd wedi'i achredu'n genedlaethol

Ein blaenoriaeth allweddol nesaf fydd adnewyddu'r strategaeth eiriolaeth a'i blaenoriaethau cysylltiedig.

Rydym wedi gwneud cyfraniad sylweddol at yr ⁴ [asesiad rhanbarthol o anghenion y boblogaeth](#) a'r ⁵ [adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad](#), sydd ill dau wedi'u hadnewyddu. Mae'r rhain wedi llywio ein blaenoriaethau strategol, ac rydym yn datblygu porth data comisiynu sy'n canolbwyntio i ddechrau ar wasanaethau pobl hŷn i lunio ein trefniadau comisiynu yn y dyfodol.

Bydd y porth comisiynu yn cael ei ddatblygu i gynnwys oedolion o oedran gweithio a phlant a phobl ifanc. Byddwn yn defnyddio'r porth i sicrhau bod ein gwybodaeth am y farchnad a'n data yn cael eu defnyddio, gan gynnwys data dadansoddi tueddiadau, i lywio ein penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol, yn lleol ac ar draws rhanbarth Gorllewin Cymru.

Rydym wedi datblygu llwybr gyrfa rhanbarthol ar gyfer comisiynwyr ac wedi sicrhau cyllid gan y Bartneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol i weithredu rhaglen hyfforddiant sy'n cyd-fynd â set asesedig o anghenion datblygu. Mae'r llwybr wedi cael derbyniad da, ac rydym yn cefnogi comisiynwyr yn lleol ac ar draws y rhanbarth yn weithredol i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u cymhwysedd comisiynu. Ein camau nesaf fydd datblygu meysydd o angen sydd wedi'u nodi o ddadansoddiad o anghenion hyfforddiant, a byddwn yn blaenoriaethu'r rhain yn 2026/27.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru wedi nodi ei fwriadau cyfalaf strategol i gefnogi'r agenda hon (⁶[Strategaeth Gyfalaf – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru](#)), sy'n alluogwr hollbwysig i ni gyflawni ein huchelgeisiau i ddarparu amrywiaeth o anghenion llety i gefnogi pobl i fyw a heneiddio'n dda yn Sir Gaerfyrddin. Mae gan Lywodraeth Cymru ddwy brif ffrwd ariannu i gefnogi gwaith rhanbarthol i siapio'r farchnad gofal a chymorth yn strategol. Y rhain yw'r Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Gofal.

Drwy gyllid Cronfa Tai â Gofal a Chronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Gofal Llywodraeth Cymru, mae ein rhaglen ailgydbwyso yn cefnogi datblygiad cartrefi gofal mewnol, sef Plas y Bryn – a fydd yn gartref gofal cofrestredig deuol – a Phentre Awel – a fydd yn gweld datblygiad gwelyau gofal preswyl, gofal ychwanegol, a datblygiadau llety byw â chymorth – gan gryfhau gwydnwch y farchnad a darparu ystod o opsiynau llety. Plas y Bryn fydd y cartref nyrsio cyntaf yng Nghymru i gael ei ddarparu gan awdurdod lleol. Mae caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau a bydd y gwaith adeiladu'n dechrau yn 2026 gyda'r bwriad o agor y cartref yn 2028 yn dilyn rhaglen adeiladu o 18 mis. Mae gennym ni hefyd raglen uchelgeisiol i leihau ein dibyniaeth ar ofal preswyl a hyrwyddo mwy o fodelau byw annibynnol i oedolion o oedran gweithio.

⁴ <https://www.wwrpb-data.org.uk/Data/Sites/1/media/population-needs-assessment-revision-v2-final-v3-accessible-final.pdf>

⁵ <https://www.wwrpb.org.uk/cy/adroddiad-yngghylch-sefydlogrwydd-y-farchnad-2022/>

⁶ <https://www.wwrpb.org.uk/cy/strategaeth-gyfalaf/>

Mae rhaglen gomisiynu ranbarthol ar y gweill i ddatblygu fframwaith integredig ar gyfer cartrefi gofal i oedolion (18-64 oed). Mae hwn yn enghraifft glir o gomisiynwyr yn mabwysiadu dull cydweithredol o gomisiynu gyda'n hawdurdodau lleol a'n partneriaid ieuchyd eraill. Mae hyn yn adeiladu ar waith llwyddiannus hyd yma, gan gynnwys datblygu cytundeb cyn-leoli ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn. Mae wedi'i gynhyrchu ar y cyd â Fforwm Gofal Cymru, ein darparwyr a'n partneriaid, a bydd yn darparu set gyson o delerau ac amodau, manyleb gwasanaeth a fframwaith sicrhau ansawdd ar draws y rhanbarth. Y camau nesaf fydd ymgynghori ar y cytundeb terfynol gyda'r bwriad o'i weithredu yn gynnar ym mlwyddyn ariannol 2026/27.

Rydym wedi cyfrannu'n weithredol at ddatblygu cynllun strategol rhanbarthol ar gyfer gofalwyr sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru ⁷([Cynllun Strategol Gofalwyr Di-dâl Gorllewin Cymru 2025-2030 – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru](https://www.rpb.org.uk/cy/cynllun-strategol-gofalwyr-di-dal-gorllewin-cymru-2025-2030)). Yn lleol, mae pob partner wedi datblygu cynllun gweithredu i gwmpasu a mesur gweithgareddau i gyflawni'r blaenoriaethau strategol. Caiff cynnydd ei gofnodi'n rheolaidd gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o gomisiynwyr Cyngor Sir Caerfyrddin, cynrychiolydd o wasanaethau rheoli gofal, a Fforwm Gofalwyr Sir Gaerfyrddin. Mae'r cynllun wedi llywio dyluniad a gweithrediad ystod o wasanaethau cymorth a ariennir drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a Chronfa 'Amser' Gofalwyr Di-dâl.

Yn dilyn agor Canolfan Pentre Awel yn Llanelli ym mis Hydref 2025 – hwb integredig ar gyfer ieuchyd, llesiant, addysg, busnes, arloesedd ac ymchwil – mae gwaith wedi dechrau ar gwmpasu ymhellach elfennau byw â chymorth prosiect ehangach Pentre Awel. Mae'r cynlluniau'n cynnwys cyfadeilad byw â chymorth sy'n cynnwys cartref nyrsio, gwelyau adsefydlu, gofal ychwanegol a fflatiau byw â chymorth i'w rhentu a'u prynu. Mae dyluniadau cysyniadol wedi'u drafftio ac mae gwaith bellach wedi dechrau i ddatblygu'r dyluniadau ac archwilio dichonoldeb ymhellach.

Hefyd, yn dilyn sicrhau cyllid o dan raglen Cronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Gofal Llywodraeth Cymru, mae'r cyngor yn ailddatblygu hen safle Debenhams yn Rhodfa'r Santes Catrin, Caerfyrddin, i greu canolfan ieuchyd a llesiant integredig. Mae'r datblygiad, a elwir bellach yn Atriwm, yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd a disgwylir iddo agor i'r cyhoedd ddechrau 2027.

Gofalwyr Di-dâl

Amcangyfrifir bod 21,000 o ofalwyr di-dâl yn Sir Gaerfyrddin. Er y gall gofalu fod yn werthfawr iawn, gall hefyd fod yn heriol yn gorfforol ac yn emosiynol. Gall gofalwyr profi blinder, ynysigrwydd a straen ariannol. Nid yw llawer o bobl yn ystyried eu hunain yn "ofalwyr di-dâl". Maen nhw'n gweld eu hunain yn syml fel partner, rhiant, brawd, chwaer neu ffrind sy'n gwneud yr hyn sydd angen ei wneud. Gall hyn greu rhwystr i gael mynediad at gymorth, gan efallai na fydd unigolion yn sylweddoli bod cymorth ar gael iddynt yn eu rhinwedd eu hunain. Gall llywio systemau ieuchyd a gofal cymdeithasol, rheoli incwm is, a chydbwyso cyfrifoldebau cystadleuol ddod yn llethol heb y cyngor cywir ac ymyrraeth gynnar. I fynd i'r afael â hyn, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn

⁷ <https://www.rpb.org.uk/cy/cynllun-strategol-gofalwyr-di-dal-gorllewin-cymru-2025-2030/>


comisiynu ystod eang o wasanaethau i gefnogi gofalwyr di-dâl, gan gydnabod gwerth eu cyfraniad a'r pwysau y maent yn eu hwynebu. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cyfleoedd i'r gofalwr a'r rhai sy'n derbyn gofal aros dros nos yn y Caban, gan ddarparu seibiant byr wedi'i gynllunio mewn lleoliad cefnogol.
- Gwasanaeth dosbarthu cartref 'People Speak Up' sy'n cynnig gweithgareddau ystyrlon fel ysgrifennu creadigol, adrodd straeon, a chelf a chrefft a ddarperir yn y cartref. Mae hyn yn cefnogi gofalwyr a'r rhai maen nhw'n gofalu amdany'n nhw, gan helpu i leihau pryder, unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.
- Y Pasbort i Hamdden, sy'n galluogi gofalwyr di-dâl i gael mynediad at gyfleusterau ymarfer corff a hamdden i gefnogi eu llesiant corfforol a meddyliol eu hunain.
- Cymorth wedi'i dargedu i ofalwyr unigolion yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau, a ddarperir ar y cyd â Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, gan gydnabod y cymhlethdod ychwanegol a'r straen emosiynol sy'n gysylltiedig â'r rôl hon.
- Seibiannau byr a ariennir drwy Amser, sy'n cynnig amser i ofalwyr i ffwrdd o'u cyfrifoldebau gofalu i orffwys ac adennill eu hegri, drwy Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru.
- Taliadau uniongyrchol amgylchiadau eithriadol i ofalwyr, gan ddarparu cymorth ariannol hyblyg lle mae anghenion unigryw neu frys yn codi (mae angen asesiad gofalwyr gan y tîm gwaith cymdeithasol).
- Y Gwasanaeth Cymorth Llesiant Ariannol, sy'n helpu gofalwyr i gael mynediad at y budd-daliadau cywir, cynyddu eu hincwm i'r eithaf, a rheoli pwysau ariannol.
- Gwasanaethau gwybodaeth a chymorth drwy Adferiad, sy'n cynnig gwybodaeth amserol, canllawiau ymarferol a chymorth personol i'w helpu i ddeall eu hawliau, cael mynediad at wasanaethau priodol, a llywio'r system. Mae'r gwasanaeth yn chwarae rhan allweddol mewn ymyrraeth gynnar, gan sicrhau bod gofalwyr yn derbyn y cymorth cywir ar yr amser cywir, gan helpu i atal yr angen rhag gwaethygu a lleihau ymyriadau argyfwng tymor hwy.
- Cymorth ariannol wedi'i dargedu i ofalwyr di-dâl, gan wella'r amgylchedd gofalu i hyrwyddo amgylcheddau gofalu sy'n ddiogel ac yn addas (Cronfa Tai â Gofal).

Ochr yn ochr â darpariaeth a gomisiynwyd, cefnogir gofalwyr trwy weithgarwch cydgynhyrchu ac ymgysylltu. Mae fforymau gofalwyr yn darparu cyfleoedd i unigolion rannu eu profiadau, dylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau, a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed o fewn cynllunio strategol. Mae cymorth i ofalwyr ifanc hefyd yn flaenoriaeth allweddol, gyda 30% o'r cyllid grant sydd ar gael a dderbyniwyd gan y tîm Comisiynu Oedolion wedi'i ddyrannu i Wasanaethau Plant i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc. Mae hyn yn cynnwys cymorth wedi'i dargedu a chyfleoedd cymdeithasol fel y Clwb Moments, sy'n hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol ac yn lleihau ynysigrwydd i bobl ifanc â chyfrifoldebau gofalu neu anghenion cymhleth o fewn eu teuluoedd.

Yn ogystal, mae gofalwyr yn parhau i elwa o ddarpariaeth ehangach a gyflwynir gan bartneriaid y trydydd sector yn Sir Gaerfyrddin, fel Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru, y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr, y cynllun Cerdyn Argyfwng, a mynediad at asesiadau gofalwyr.

Gyda'i gilydd, mae'r ystod hon o wasanaethau yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i gydnabod a chynnal gofalwyr di-dâl. Fodd bynnag, o ystyried maint y gofalu ar draws y sir a chymhlethdod cynyddol yr angen, mae ffocws parhaus ar adnabod yn gynnar, gweithio mewn partneriaeth a chymorth hygyrch yn parhau i fod yn hanfodol i sicrhau bod gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi ac yn gallu cynnal eu llesiant eu hunain ochr yn ochr â'u rôl ofalu.



Llesiant Delta

Mae Llesiant Delta yn parhau i gryfhau ei rôl fel darparwr dibynadwy o wasanaethau ataliol ac ymatebol. Mae'r ffocws yn parhau ar alluogi annibyniaeth, lleihau'r galw y gellir ei osgoi ar wasanaethau statudol, a darparu elw cymdeithasol ac ariannol mesuradwy i bartneriaid a chymunedau.

Mae gwasanaeth CONNECT Delta wedi parhau i ddarparu un llwybr hygyrch i breswylwyr dderbyn cyngor, sicrwydd a chymorth ymarferol amserol drwyddo, gan helpu unigolion i aros yn ddiogel, yn annibynnol ac yn iach yn y cartref. Mae'n darparu ymyrraeth gynnar effeithiol drwy fynd i'r afael â phryderon cyn iddynt waethgu'n argyfyngau sy'n gofyn am ymatebion iechyd neu ofal cymdeithasol statudol. Mae'r cymorth yn cynnwys pecynnau gofal sy'n cael eu galluogi gan dechnoleg, gwiriadau llesiant a gwasanaeth ymateb, yn ogystal â chyfeirio a chydlynw â gwasanaethau ehangach, gan sicrhau bod unigolion yn derbyn y cymorth cywir ar yr amser cywir.

Mae'r gwasanaeth ymateb yn chwarae rhan hanfodol wrth atal mynychu a derbyniadau diangen i'r ysbyty, gan ddarparu cymorth amserol ar lawr gwlad i unigolion sy'n profi digwyddiadau anfeddygol, yn enwedig cwympiadau. Mae'r tîm wedi mynychu cyfanswm o 21,836 o alwadau ers mis Ebrill 2022, gan gynnwys 8,020 o gwympiadau, gyda dim ond 11% wedi'u huwchgylfeirio i'r gwasanaethau brys. Mae hyn yn cymharu â chyfraddau uwchgylfeirio cyn CONNECT o oddeutu 47% ar gyfer cwympiadau, gan ddangos gostyngiad sylweddol yn y pwysau ar wasanaethau ambiwlans, adrannau brys a gofal aciwt.

Mae'r Fyddin Las, sydd wedi'i lleoli yn yr ysbyty, yn darparu cymorth hanfodol, gan gefnogi llif cleifion, atal oedi cyn rhyddhau cleifion, a helpu unigolion i drosglwyddo'n ddiogel o'r ysbyty yn ôl i'r gymuned. Mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at ganlyniadau

rhyddhau cynharach, ar gyfartaledd pedwar diwrnod yn gynharach na'r rhai heb gymorth cyfatebol. Mae ffigurau'n dangos cyfanswm o 43,470 o ddiwrnodau gwely ysbyty wedi'u hosgoi, yn ogystal ag amcangyfrif o 265,936 o oriau gofal wedi'u hosgoi wrth ryddhau cleifion, gan leihau ymhellach y galw ar wasanaethau statudol.

Mae'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth hefyd yn parhau i ddangos effaith ataliol gref, gyda dros 40% o'r unigolion a gefnogir heb fod angen ymyrraeth statudol bellach yn dilyn y cyswllt cychwynnol.

Gyda chyllid grant yn dod i ben ym mis Mawrth 2027, mae Llesiant Delta yn symud tuag at fodel cyflawni mwy cynaliadwy a hyblyg. Mae Delta i Chi yn adeiladu ar lwyddiant CONNECT a bydd yn galluogi cymorth i gael ei lunio o amgylch amgylchiadau a lefelau angen unigol, yn ogystal â gofynion sy'n newid dros amser a blaenoriaethau lleol. Ei nod yw sicrhau'r effaith a'r gwerth mwyaf posibl, gan sicrhau bod pobl yn derbyn cymorth priodol wrth gynnal cost-effeithiolrwydd a hyblygrwydd.

Astudiaeth Achos

Astudiaeth Achos Llesiant Delta

Mae stori S ac W yn dangos sut mae CONNECT Delta yn darparu cymorth hanfodol i bobl sy'n gofalu am anwyliaid â dementia, gan alluogi gwell diogelwch a llesiant.

- **Heriau gofal dementia:** Byddai Wyn, a oedd yn byw gyda dementia clefyd Parkinson, yn aml yn gadael y tŷ yn annisgwyl, gan achosi gofid i S, a oedd yn gorfod chwilio amdano a chysylltu â'r heddlu.
- **Nodweddion cymorth CONNECT Delta:** Mae'r gwasanaeth yn cynnwys synwryddion ar ddrysau, llinell gymorth botwm coch, larwm gwddf, tîm ymateb, a galwadau llesiant misol i gynorthwyo W ac S.
- **Manteision i'r gofalwr:** Mae S yn gwerthfawrogi'r cymorth gan ei bod yn caniatáu iddi barhau i weithio ac yn darparu rhyddhad emosiynol trwy alwadau llesiant rheolaidd gyda chyswllt cefnogol o'r enw T.
- **Ymateb brys a gofal seibiant:** Mae'r tîm ymateb yn gyfarwydd ag W, gan ddarparu cymorth prydlon pan fydd yn cwmpo, ac maen nhw'n annog S i gymryd seibiannau i osgoi gorflinder, gan gyfrannu at eu perthynas gadarnhaol.

“Mae cael y cymorth hwn yn golygu y gallaf barhau i weithio,” meddai S. Rwy'n oruchwyliwr amser cinio mewn ysgol gynradd leol ac yn lanhawr mewn ysgol uwchradd. Mae gwaith i mi yn rhyddhad. Os cewch chi ddiwrnod anodd, yn enwedig o ran yr heriau sy'n gysylltiedig â dementia, mae gennych chi ychydig o annibyniaeth ac rydych yn gallu teimlo eich bod yn ôl i fod yn chi eich hun.”

“Tawelwch a dealltwriaeth – mae’n gwneud gwahaniaeth mawr mewn adegau llawn straen.”

“Diolch am ein helpu i gadw ein mam yn ddiogel ac yn annibynnol – roedd yn golygu cymaint iddi hi ac i ni.”

“Roeddwn i wir yn edrych ymlaen at y galwadau – fe wnaethon nhw godi fy nghalon a gwneud gwahaniaeth mawr.”

Roedd y sawl a oedd yn trin y galwadau yn **empathig, yn garedig ac yn ystyriol** – roedd yn wirioneddol galonogol gwrando arno.”

“Rydych chi wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i’w bywyd a’i hadferiad.”

Uned Cymorth Busnes Is-adrannol

Yn ystod 2025/26, llwyddodd y gwasanaeth Cymorth Busnes Is-adrannol i gyflawni cam olaf ei ailstrwythuro cynhwysfawr, gan nodi carreg filltir arwyddocaol yn ein taith tuag at wasanaeth cymorth busnes ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Cynlluniwyd yr ailstrwythuro hwn i gyflawni arbedion cost sylweddol – gan wireddu arbediad blynyddol o tua £90,000 – yn bennaf drwy leihau nifer y swyddi a defnyddio adnoddau’n fwy effeithlon wrth sicrhau nad oes unrhyw ddiswyddiadau i staff presennol. Mae'r strwythur newydd yn cyflwyno llinellau rheoli cliriach, gydag arweinwyr tîm penodol ar gyfer pob maes gweithredol, ac yn creu gweithlu mwy ystwyth a medrus yn ddigidol. Mae hefyd yn gwella cyfleoedd datblygu gyrfa, gydag uwch-staff a phrentisiaethau newydd, gan gefnogi cadw a thwf talent o fewn y tîm.

Lleihau'r Llwyth Gwaith ac Ôl-groniadau mewn Meysydd â Galw Uchel

Mae cymorth yr Uned Cymorth Busnes i dimau Delta a'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth wedi bod yn allweddol wrth leihau ôl-groniadau ym mlwch post y gwasanaeth trwy gefnogi brysbennu a chyfeirio atgyfeiriadau/e-byst at y timau cywir.

Cymorth Hanfodol mewn Meysydd o Risg Uchel

Ym maes gofal cymdeithasol i oedolion, yn enwedig ym maes trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, diogelu, ac iechyd meddwl, mae gwaith yr Uned Cymorth Busnes yn cael ei werthfawrogi'n fawr ac yn cael ei ganmol yn rheolaidd gan uwch-reolwyr. Mae ein tîm yn sicrhau bod terfynau amser statudol yn cael eu bodloni, bod data cywir yn cael ei adrodd, a bod staff rheng flaen yn gallu canolbwyntio ar waith achos cymhleth a risg uchel. Mae'r cymorth hwn yn hanfodol i gydymffurfedd cyfreithiol, parhad gweithredol, ac amddiffyn oedolion agored i niwed.

Rhaglen Cynefino Staff

Mae'r tîm Cymorth Gweithredol wedi cynnal digwyddiad cynefino staff hynod lwyddiannus sydd wedi derbyn adborth rhagorol gan ddechreuwy'r newydd. Mae'r sesiynau cynefino hyn wedi helpu staff newydd i gael gwell dealltwriaeth o'r adran a theimlo eu bod yn gysylltiedig â'r sefydliad, gan feithrin diwylliant cadarnhaol yn y gweithle.

Pencampwyr Digidol

Mae staff yr Uned Cymorth Busnes ar draws pob tîm wedi cofleidio rôl pencampwyr digidol, gan gefnogi cydweithwyr gyda systemau digidol, mewnbynnu data, adrodd, a hyfforddiant. Mae hyn wedi sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau, moderneiddio, a mwy o hyder yn y defnydd o dechnoleg ledled y sefydliad.

Tîm Cyllid

Mae'r tîm cyllid wedi cyflawni ystod eang o welliannau, gan gynnwys cyrraedd pob targed effeithlonrwydd ar gyfer 2025/26 a chyfrannu at arbedion ehangach y gyfarwyddiaeth, megis cefnogi trafodaethau ffioedd gyda'r sector gofal preswyl i oedolion.

Mae gweithredu'r polisi codi tâl newydd yn llwyddiannus wedi cynhyrchu incwm ychwanegol i helpu i sefydlogi'r gyllideb gofal cymdeithasol. Cyflawnwyd gwelliannau sylweddol i'r systemau digidol a phrosesau, gan gynnwys cyflwyno Govmail i leihau costau argraffu a phostio, treialu ffurflen Datganiad Modd ar-lein i ddarparu ffordd fwy diogel ac effeithlon i ddefnyddwyr gwasanaeth gyflwyno gwybodaeth ariannol, a datblygu datrysiad RPA ar gyfer anfonebu preswyl bob pedair wythnos i ryddhau capasiti staff a chryfhau'r broses o adennill dyledion.

Mae'r tîm hefyd wedi cryfhau llywodraethiant a rheolaethau ariannol drwy weithredu proses fwy cadarn ar gyfer cyfraniadau costau ychwanegol mewn gofal preswyl i bobl hŷn a gwella cyfraddau adennill dyledion drwy'r Tîm Adennill Dyledion newydd ei sefydlu, sy'n gweithio'n agos gyda'r Adran Gyfreithiol i sicrhau dyledion heb eu talu.

Mae gwelliannau gweithredol yn cynnwys symleiddio prosesau talu o fewn y Tîm Taliadau, symud ymlaen â throsglwyddo taliadau cysylltu bywydau i CareFirst, a chwblhau ymarfer aildendro llawn ar gyfer angladdau iechyd y cyhoedd i sicrhau gwasanaethau urddasol am y gost y cytunwyd arni.

Yn ogystal, mae cyflwyno cynllun peilot cerdyn rhagdaledig ar gyfer cleientiaid o dan benodeiaeth wedi disodli'r system arian parod flaenorol, gan wella diogelwch, cydymffurfedd â rheoliadau ariannol, ac annibyniaeth cleientiaid wrth alluogi gwell goruchwyliaeth o wariant.

Safonau Ansawdd

Mae'r adran hon yn cefnogi cyflawni'r safonau ansawdd drwy gryfhau llywodraethiant, diogelu, gwydnwch ariannol ac effeithlonrwydd systemau. Yn benodol, mae'n cyfrannu at safonau ansawdd 1, 3 a 6 drwy alluogi gwasanaethau amserol, cyfreithlon a chynaliadwy wrth gefnogi Safon Ansawdd 2 drwy wella mynediad, ymatebolrwydd ac atal. (Mae rhagor o fanylion ynghylch safonau ansawdd i'w gweld yn Atodiad 1.)

Perfformiad a Thrawsnewid Digidol

Mae Perfformiad a Thrawsnewid Digidol yn chwarae rhan ganolog o ran galluogi ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ddarparu rheolaeth perfformiad gref, data a mewnewlediad o ansawdd uchel, ac arweinyddiaeth ar newid digidol sy'n cefnogi darpariaeth, sicrwydd a gwelliant gwasanaethau'n uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr a'r gwasanaethau.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r tîm wedi cefnogi'r gyfarwyddiaeth i fodloni gofynion statudol a chorfforaethol, gan gynnwys datganiadau perfformiad, cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr, prosesau hunanasesu, a pharatoadau ar gyfer arolygiadau. Mae'r gwasanaeth wedi cydlynu cynllunio busnes a gweithgareddau rheoli risg, gan sicrhau llinell welediad glir rhwng blaenoriaethau strategol, cyflawni gweithredol a sicrwydd perfformiad. Mae'r fframwaith perfformiad wedi'i gryfhau i ddarparu goruchwyliaeth gadarn ac amserol, gan alluogi arweinwyr i nodi risg, targedu cymorth, a chanolbwyntio ar welliant.

Ochr yn ochr â hyn, mae'r tîm wedi hyrwyddo trawsnewid digidol ymarferol, gan gydweithio'n agos â gwasanaethau i gynllunio a gweithredu systemau ac atebion data sy'n lleihau'r baich gweinyddol, yn cryfhau llywodraethiant, ac yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r dull integredig hwn yn sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn hygyrch, yn amserol ac yn ystyrlon, a bod datblygiadau digidol wedi'u cysylltu'n glir â gwella gwasanaethau, capasiti'r gweithlu a chanlyniadau gwell.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi gwneud cynnydd sylweddol, gan gynnwys y canlynol:

- Adeiladu tîm perfformiad a thrawsnewid digidol medrus a gwydn, gan gryfhau gallu prosiectau, data a dadansoddol i gefnogi gwasanaethau'n well.
- Gweithredu system Eclipse ar draws Gwasanaethau Plant ac Oedolion, gan wella ansawdd data, gallu adrodd a chydymffurfedd statudol.
- Cyflwyno fframwaith perfformiad cryfach, gan gefnogi craffu effeithiol, sicrwydd, a'r cyfrwng ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus gan arweinwyr.
- Cyflwyno a mewnosod offer digidol fel Magic Notes a Sgript, lleihau'r baich gweinyddol, gwella ansawdd cofnodi, a chefnogi capasiti'r gweithlu.
- Arwain a datblygu 'Diogelu LINC', sef menter diogelu amlasiantaeth sy'n dwyn ynghyd wybodaeth berthnasol am ddiogelu gan bartneriaid statudol yn ddiogel i ddarparu golwg amserol, sy'n canolbwyntio ar blant, ar risg cefnogi rhybuddion rhagweithiol, a galluogi dadansoddiad strategol i gryfhau'r broses o wneud penderfyniadau diogelu.
- Gwella'r broses o ymdrin â chwynion a chefnogi byrddau strategol a gweithredol allweddol, gan sicrhau bod mewnewlediad i berfformiad yn llywio gwella gwasanaethau a llywodraethiant.



Cynhyrchwyd clip fideo byr i gofnodi adborth a phrofiadau staff o ddefnyddio Magic Notes yn eu rolau.

Blaenoriaethau ar gyfer 2026/27

Ein ffocws ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- **Perfformiad:** Gwella dangosfyrddau, cyflwyno siartiau prosesu ystadegol a fydd yn cefnogi gwella perfformiad, bodloni terfynau amser statudol ar gyfer cwynion ac adrodd ar berfformiad.
- **Systemau:** Adolygu systemau a platfformau, cyflwyno system Cx Housing a system ariannol Eclipse, cyflwyno Cam 1 Diogelu Linc, a chynnal llywodraethu data cryf.
- **Prosiectau:** Cyflawni prosiectau blaenoriaeth, cefnogi cynlluniau peilot digidol, a chryfhau offer rheoli prosiectau.

Mae'r cynllun hwn yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau, optimeiddio systemau, ac ymgorffori arloesedd ar draws y sefydliad.

Safonau Ansawdd

Fel swyddogaeth alluogi, mae Perfformiad a Thrawsnewid Digidol yn sail i gyflawni'r safonau ansawdd drwy gryfhau diogelu, llywodraethiant, cynaliadwyedd ariannol ac ymatebolrwydd systemau. Yn benodol, mae'n cefnogi safonau ansawdd 1, 3 a 6 wrth alluogi atal a rheoli risg gwell i gefnogi Safon Ansawdd 2. (Mae rhagor o fanylion ynghylch safonau ansawdd i'w gweld yn Atodiad 1.)

Fframwaith Mwy Na Geiriau

Mae'r Fframwaith Mwy na Geiriau yn gynllun strategol gan Lywodraeth Cymru a gynlluniwyd i brif ffrydio'r Gymraeg o fewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae fersiynau diweddar yn nodi rhwymedigaethau cyfreithiol a pholisi o dan safonau'r Gymraeg a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r gofynion allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Penodi uwch-swyddog yn Hyrwyddwr y Gymraeg
- Mapio ac archwilio darpariaeth gwasanaethau Cymraeg
- Cofnodi anghenion iaith a sgiliau staff
- Gwneud y 'Cynnig Rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg. Mae'r cysyniad 'Cynnig Rhagweithiol' yn elfen allweddol o'r Fframwaith "Mwy na Geiriau" a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cyfeirio at ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol, gan sicrhau bod unigolion yn cael cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg heb orfod gofyn amdanynt.

Mae'r fframwaith yn hanfodol er mwyn sicrhau bod unigolion yn derbyn gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n parchu eu hanghenion ieithyddol. Mae'n cydnabod y gall iaith unigolyn effeithio'n sylweddol ar ansawdd gofal, yn enwedig yn ystod cyfnodau bregus pan allai'r unigolyn fod yn profi gofid emosiynol. Drwy feithrin system iechyd a gofal cymdeithasol ddwyieithog, mae'r fframwaith yn anelu at wella darpariaeth gwasanaethau a chanlyniadau cyffredinol i siaradwyr Cymraeg.

Ein Gwaith Hyd yn Hyn yn Sir Gaerfyrddin

Llywodraethiant ac Arweinyddiaeth: Fel dysgwr brwd o'r Gymraeg, mae'r Cyfarwyddwr wedi cytuno i fod yn Hyrwyddwr y Gymraeg a bydd hefyd yn cadeirio Bwrdd yr Iaith Gymraeg Adrannol i oruchwylio gweithredu dull newydd o ddysgu a bydd yn gwella defnydd o'r Gymraeg yn y gyfarwyddiaeth yn 2026/27.

Mapio Capasiti a Sgiliau: Mae gwaith cychwynnol wedi'i wneud i gasglu sgiliau Cymraeg staff a phroffiliau cymunedol. Fodd bynnag, mae data diweddar (Ionawr 2026) yn dangos bod bylchau yn ein data o hyd. Byddwn yn sicrhau bod y set ddata hon yn cael ei mireinio a'i diweddarau.

Cynnig Rhagweithiol: Mae gwasanaethau wedi cael eu hannog i ddarparu opsiynau Cymraeg yn rhagweithiol, gan gyd-fynd ag egwyddorion y fframwaith.

Integreiddio Polisi: Ystyriaethau'r Gymraeg wedi'u hymgorffori mewn cynllunio'r gweithlu a gwasanaethau. Mae'r Gymraeg hefyd wedi'i hintegreiddio i systemau rheoli cleientiaid ac asesiadau cleientiaid.

Argymhellion Allweddol

- Ailgynnull y Grŵp Mewnol: Sicrhau bod y grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn adrodd yn ôl i'r Tîm Rheoli Adrannol er mwyn cynnal goruchwyliaeth ac atebolrwydd.
- Archwiliad o Sgiliau'r Gweithlu: Cynnal adolygiad cynhwysfawr o sgiliau Cymraeg staff gan ddefnyddio data ResourceLink i nodi bylchau a chyfleoedd.
- Hyfforddiant a Datblygiad: Mapio cyfleoedd hyfforddiant cyfredol, nodi rhaglenni newydd, a datblygu strategaeth i hyrwyddo hyfforddiant Cymraeg ar draws yr adran.
- Monitro ac Adrodd: Gweithredu mecanwaith adrodd strwythuredig i olrhain cynnydd yn erbyn amcanion y fframwaith a rhannu diweddariadau gyda'r Tîm Rheoli Adrannol bob chwarter.
- Datblygu cynllun cyfathrebu i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant ac atgyfnerthu egwyddor y Cynnig Rhagweithiol ar draws yr adran.
- Darparu'r rhaglen ddatblygu 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog' i'r Tîm Rheoli Adrannol a'r holl uwch-reolwyr.

Beth mae Pobl yn ei Ddweud / Sut mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau

Mae'r adran hon yn amlinellu ansawdd ac effaith gwasanaethau Cyngor Sir Caerfyrddin, wedi'u hategu gan ganfyddiadau arolygiadau annibynnol, adborth defnyddwyr gwasanaethau, a gwobrau a enillwyd gan staff a gwasanaethau. Mae gweithgarwch arolygu a sicrwydd yn darparu dilysrwydd allanol cryf o arweinyddiaeth effeithiol, arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a chanlyniadau cadarnhaol.

Adborth ar Arolygiadau ac Adolygiadau

Fel rhan o'i rôl reoleiddio, mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn cynnal arolygiadau a gwiriadau gwella bob blwyddyn i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu cymorth diogel o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo llesiant pobl. Mae hyn yn cynnwys arolygiadau ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru lle mae gwasanaethau'n cwmpasu iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ystod 2025–26, cwblhawyd pum arolygiad ar draws ein gwasanaethau a dyma'r canlyniadau isod:

Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru

Gofal Cartref Mewnol, Gorffennaf 2025

Mae gwasanaeth gofal cartref mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu cymorth i bobl sydd ei angen i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth hirdymor yn y gymuned ac o fewn dau gynllun gofal ychwanegol, gwasanaeth ailalluogi tymor byr, a gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig Gartref yn Gyntaf.

Canfu arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru a gynhaliwyd ym mis **Gorffennaf 2025** fod y gwasanaeth yn perfformio ar lefel **ragorol** ar draws yr holl feysydd a arolygwyd.



Llesiant - Rhagorol

Mae barn a dewisiadau pobl yn cael eu ceisio, eu parchu a'u gweithredu'n weithredol. Mae pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed gan dimau staff ymroddedig iawn sydd wedi'u hyfforddi'n gynhwysfawr a'u cefnogi'n dda.



Gofal a Chymorth - Rhagorol

Mae pobl wrth wraidd gwasanaeth arloesol o ansawdd uchel. Mae yna gydweithio eithriadol gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bobl.



Arweinyddiaeth a Rheolaeth - Rhagorol

Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain gan unigolyn cyfrifol ysbrydoledig a thîm rheoli sy'n cael eu parchu'n fawr gan staff ac yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Dywedodd defnyddwyr y gwasanaethau:

“

Rwy'n teimlo'n ddiogel gyda'r gofalwyr sy'n galw heibio; maen nhw'n ddibynadwy. Maen nhw'n dyner iawn gyda fy ngofal personol ac yn parchu fy urddas. Maen nhw bob amser yn curo ar y drws ffrynt cyn mynd i mewn i'm fflat.

“Does gen i ddim cwynion o gwbl. Pe bawn i am wneud cwyn, byddwn i'n siarad ag un o'r gofalwyr neu'r uwch-weithwyr ac rwy'n gwybod y byddan nhw'n datrys pethau. Does gen i ddim pryderon o gwbl. Pe bawn i am wneud cwyn, byddwn i'n siarad ag un o'r rheolwyr ac nid oes gennym ni unrhyw bryderon o gwbl. Rwy'n gwybod, pe baem yn gwneud hynny, y byddent yn gwrando ac yr gweithredu ar y gŵyn.

”

Arolygiaeth Gofal Cymru – Tir Eion, Ionawr 2026

Mae Tir Eion yn gartref gofal bach ar gyrion tref Llanelli sy'n cynnig cymorth arhosiad byr i oedolion ag anabledd dysgu.

Canfu'r arolygiad fod y gwasanaeth yn perfformio'n gryf ar draws pob maes, gyda thri maes wedi'u graddio'n Rhagorol a'r amgylchedd wedi'i raddio'n Dda.



Llesiant – Rhagorol

Mae pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn cael eu cefnogi i nodi a chyflawni eu canlyniadau iechyd a llesiant. Mae gan unigolion ddewis a rheolaeth dros eu bywydau beunyddiol ac maent yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae pobl yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod, ac yn elwa o drefniadau rheoli risg hynod effeithiol. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo annibyniaeth, profiadau ystyrlon, a pherthnasoedd cryf gyda staff a chyfoedion.



Gofal a Chymorth – Rhagorol

Mae pobl yn derbyn gofal personol o ansawdd uchel gan dîm o staff medrus ac angerddol. Mae'r gwasanaeth yn cynnal asesiadau cynhwysfawr ac yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod gofal wedi'i gynllunio'n dda ac yn ymatebol. Mae cynllunio gofal yn greadigol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, gan rymuso pobl i gyflawni nodau newydd. Mae cyfathrebu yn gryfder penodol, gydag amrywiaeth o ddulliau hygyrch yn cael eu defnyddio. Mae rheoli meddyginiaethau, atal heintiau a hylendid i gyd yn cael eu darparu yn unol â chanllawiau cenedlaethol.



Amgylchedd – Da

Mae'r amgylchedd yn groesawgar, bywiog a chartrefol, gan gefnogi pobl i deimlo'n gyfforddus ac yn hamddenol yn ystod eu harhosiad. Mae mannau cymunol a phreifat yn hyrwyddo annibyniaeth, urddas a dewis. Mae'r adeilad yn ddiogel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn hygyrch, gyda threfniadau rheoli risg a diogelwch effeithiol ar waith. Mae mannau awyr agored ac offer wedi'u haddasu yn cefnogi llesiant a mwynhad pobl ymhellach.



Arweinyddiaeth a Rheolaeth – Rhagorol

Mae'r gwasanaeth yn elwa o arweinyddiaeth gref a goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr. Mae'r unigolyn cyfrifol yn adnabyddus, yn ymweld yn rheolaidd, ac yn ceisio adborth yn weithredol gan bobl a staff. Mae prosesau archwilio a sicrhau ansawdd cadarn yn llywio gwelliant parhaus. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda trwy oruchwyliaeth, hyfforddiant a chyfleoedd datblygu rheolaidd, ac mae diwylliant cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal rhagorol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Gwiriad Sicrwydd ar y Cyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru

Gwasanaethau Anabledd Dysgu – Tachwedd 2025

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru wiriad sicrwydd ar y cyd o Wasanaethau Anabledd Dysgu Sir Gaerfyrddin ym mis Tachwedd 2025.

Dywedon nhw:

- ✓ Mae staff Cyngor Sir Gaerfyrddin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn dweud bod Sir Gaerfyrddin yn lle da i weithio.
- ✓ Mae ymarferwyr ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn hyderus bod ganddynt fynediad at hyfforddiant priodol.
- ✓ Mae llawer o bobl yn dweud bod ymarferwyr yn gymwynasgar, yn gyfeillgar ac yn gefnogol ac yn darparu cymorth personol.
- ✓ Mae staff yn ystyried anghenion cyfathrebu pobl ac yn hyrwyddo cynnig rhagweithiol y Gymraeg.
- ✓ Mae enghreifftiau o anghenion iaith pobl yn cael eu diwallu trwy ddefnyddio dehongli.
- ✓ Ar lefel weithredol, mae pobl yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau, a chaiff eu dewisiadau eu parchu.

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Yr Hafan – Chwefror 2026

Mae cartref plant yr Hafan yn darparu amgylchedd diogel a chefnogol i hyd at bedwar o blant.



Llesiant – Da

Mae plant yn profi llesiant cadarnhaol mewn amgylchedd diogel a chefnogol lle cânt eu trin ag urddas a pharch. Maent yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau am eu bywydau beunyddiol, ac yn datblygu perthnasoedd ymddiriedus â staff gofal. Anogir plant i gymryd rhan mewn addysg, meithrin sgiliau bywyd, a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n adlewyrchu eu diddordebau. Mae trefniadau diogelu yn effeithiol, ac mae'r cartref yn darparu lleoliad cyfforddus lle mae plant yn teimlo'n gartrefol ac yn cael eu cefnogi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.



Gofal a Chymorth – Da

Mae plant yn derbyn gofal a chymorth o ansawdd da gan staff sy'n eu hadnabod yn dda ac yn deall eu hanghenion a'u harferion unigol. Mae gofal yn cael ei arwain gan gynlluniau sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar y plentyn, ac sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, gyda chymorth yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio dulliau ymddygiad cadarnhaol sy'n ystyriol o drawma. Mae plant

yn cael eu cefnogi i fynychu addysg, meithrin annibyniaeth a chynnal perthnasoedd pwysig, gyda staff yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Caiff anghenion ieuchyd, gan gynnwys meddyginiaeth, eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol, ac mae plant yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal a'u parchu a'u cefnogi, gan gyfrannu at gynnydd cadarnhaol a phrofiadau gofal sefydlog.



Amgylchedd – Da

Mae'r amgylchedd yn darparu lleoliad diogel, sicr a chroesawgar sy'n cefnogi llesiant a threfn ddyddiol plant. Mae llety pwrpasol yn cynnig amrywiaeth o fannau cymunol a phreifat, gan alluogi plant i gymdeithasu, treulio amser ar eu pennau eu hunain, a phersonoli eu hystafelloedd gwely. Mae trefniadau ieuchyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n dda, gyda gwiriadau rheolaidd a chynnal a chadw prydlon yn cyfrannu at amgylchedd byw diogel. Er bod rhai nodweddion dylunio arbenigol yn adlewyrchu pwrpas ymyrraeth argyfwng y cartref, mae staff yn defnyddio'r gofod yn sensitif i greu awyrgylch sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae ardaloedd awyr agored yn gwella llesiant ymhellach, gan gynnig cyfleoedd i chwarae, cael awyr iach ac ymgymryd â gweithgareddau strwythuredig, gyda gwelliannau parhaus yn dangos ymrwymiad i gynnal amgylchedd byw cadarnhaol.



Arweinyddiaeth a Rheolaeth – Da

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol yn cefnogi plant i brofi gofal cadarnhaol a chyson. Mae arweinwyr yn meithrin diwylliant cefnogol lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u harwain yn dda a'u bod yn hyderus yn eu rolau, gan gyfrannu at berthnasoedd sefydlog a chymorth o ansawdd da i blant. Mae trefniadau llywodraethu a goruchwyllo yn gadarn, gyda monitro rheolaidd, adolygiadau ansawdd a hysbysiadau Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael eu defnyddio i sbarduno gwelliant parhaus. Mae trefniadau staffio a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n dda, ac mae cyfathrebu cryf â gweithwyr proffesiynol, plant a staff yn helpu i sicrhau bod gofal yn ddiogel ac yn gydlynol ac yn ymatebol i anghenion plant.

Llys Caradog – Gorffennaf 2025

Mae Llys Caradog yn darparu gofal a chymorth i blant ag anableddau dysgu, gan gynnig gofal personol o fewn cartref gofal cofrestredig. Mae'r cartref wedi'i gofrestru ar gyfer hyd at bump o blant.



Llesiant – Da

Mae plant yn cael eu cefnogi i gyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol trwy berthnasoedd staff tosturiol, caredig a gofalgar. Rhoddir gwybodaeth glir iddynt am y gwasanaeth mewn fformatau hygyrch, gyda datblygiad pellach wedi'i gynllunio i wella dealltwriaeth. Cynigir dewisiadau ystyrlon i blant mewn gweithgareddau hamdden a chânt eu cefnogi i ddatblygu annibyniaeth, gan gynnwys sgiliau byw bob dydd. Darperir prydau iach a chytbwys gyda hyblygrwydd i ddiwallu dewisiadau unigol ac anghenion cyfathrebu. Mae cymorth cryf ar waith ar gyfer addysg, ieuchyd a datblygiad plant, gan gynnwys trafnidiaeth, Cynlluniau Addysg Personol, a mynediad at ofal ieuchyd. Rhoddodd teuluoedd adborth cadarnhaol am ansawdd y gofal, ac mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg lle bo'n well ganddynt.



Gofal a Chymorth – Da

Mae'r darparwr yn cwblhau asesiadau trylwyr i nodi canlyniadau llesiant, gyda chynlluniau personol wedi'u hysgrifennu yn llais y plentyn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae risgiau'n cael eu rheoli'n dda, mae cofnodion dyddiol yn cael eu cynnal, ac mae cymorth cyson bellach ar waith, gan fynd i'r afael â gofynion arolygu blaenorol. Mae staff yn dangos dealltwriaeth gref o anghenion plant a chyfrifoldebau diogelu ac mae meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n ddiogel gan staff hyfforddedig.



Amgylchedd – Da

Mae'r gwasanaeth yn darparu amgylchedd cyfforddus, croesawgar, ac wedi'i gyfarparu'n dda lle mae plant yn teimlo'n gartrefol. Mae ystafelloedd gwely wedi'u personoli ac yn hygyrch, gyda mannau a rennir yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi chwarae, ymlacio ac anghenion synhwyrdd. Mae'r gegin yn lân ac yn drefnus, gyda bwydlenni cytbwys wedi'u llunio gan ddewisiadau plant, ac mae mannau awyr agored yn darparu cyfleoedd ar gyfer chwarae a rhyngweithio cymdeithasol. Mae trefniadau iechyd a diogelwch yn gadarn, gyda gwasanaethu cyfoes, mesurau diogelwch tân, a chynlluniau gwacáu clir ar waith. Defnyddir system gynnal a chadw i fonitro cyflwr yr eiddo, gyda rhywfaint o waith ailaddurno wedi'i nodi a'i drefnu i'w gwblhau.



Arweinyddiaeth a Rheolaeth – Da

Mae'r Datganiad o Ddiben wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r ddarpariaeth gwasanaeth gyfredol, gan fynd i'r afael â gofyniad arolygu blaenorol. Fodd bynnag, mae lleoliadau brys wedi lleihau argaeledd seibiannau byr, gan effeithio ar rai plant a theuluoedd. Mae trefniadau llywodraethu a goruchwyllo yn effeithiol, gydag ymweliadau rheolaidd gan yr unigolyn cyfrifol yn llywio gwelliant. Mae trefniadau staffio yn gryf ar y cyfan, er bod angen cryfhau rhywfaint o hyfforddiant. Mae adborth am ymrwymiad staff yn gadarnhaol, ond nododd tua hanner y teuluoedd anawsterau oherwydd diffyg seibiannau byr dros nos.

Cwynion a Chanmoliaeth

Mae cwynion yn ffynhonnell bwysig iawn o wybodaeth ynghylch sut mae ein gwasanaethau'n cyflawni ar gyfer pobl Sir Gaerfyrddin, gan eu bod yn hollbwysig yn helpu i ddatgelu'r meysydd hynny o'n gwaith lle efallai y bydd angen i ni wella. Mae ein cyfarwyddiaeth yn un a fydd o dan fy arweinyddiaeth yn dangos ethos o ddysgu parhaus a thryloywder, ill dau yn elfennau hanfodol o wasanaeth sy'n gweithio gydag aelodau'r cyhoedd, yn aml ar adegau o anhawster a sensitifrwydd mawr iddynt. Ar hyn o bryd, nid yw ein proses o reoli cwynion yn gyson ar draws gwasanaethau oedolion a phlant, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y data perfformiad sy'n dilyn. O ganlyniad i hyn, rwyf wedi gofyn i'n cydweithwyr yn yr adran archwilio mewnol gynnwys cwynion fel maes penodol o weithgarwch archwilio ar eu cynllun ar gyfer 26/27, a thrwy hynny roi'r cyfle inni ddeall sut y gallwn wella yn y maes gwaith hollbwysig hwn. Mae sut rydym yn rheoli ein cwynion yn dweud llawer am sut rydym yn parchu ein cwsmeriaid, ac mae hefyd yn dweud llawer am ein parodrwydd i gael ein dal yn gyfrifol am yr hyn a wnawn. Mae fy ethos yn hyn o beth yn glir: rydym yn ymddiheuro pan fyddwn yn gwneud rhywbeth o'i le ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w gywiro ac atal camgymeriadau tebyg rhag cael eu gwneud yn y dyfodol.

Yn yr un modd, mae canmoliaeth a dderbyniwn yn darparu gwybodaeth bwysig am yr hyn yr ydym yn ei wneud yn iawn ac felly'r hyn y dylem barhau i'w wneud, a, lle mae cyfle'n

caniatáu, i ehangu cymhwyso'r gweithgaredd a ganmolwyd yn ehangach ar draws y gwasanaeth. Ers dechrau yn y rôl hon, rwyf wedi gofyn i bob canmoliaeth ffurfiol ac anffurfiol gael ei hanfon ataf waeth beth fo'i tharddiad ac rwyf wedi bod yn ostyngedig gan lefel yr ymrwymiad a'r tosturi gan staff ym mhob maes. Mae'n hanfodol, os yw staff am deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu gwaith, ein bod yn cydnabod pan fyddant wedi mynd y filltir ychwanegol yn eu gwaith i gefnogi ein preswylwyr.

Canmoliaeth y Gwasanaethau i Oedolion

Canmoliaeth a ddaeth i law
152

Y 3 Ardal Gorau

28 Llif System a Gofal Brys

27 Gofal tymor hir

24 Atal a Lles

Cwynion y Gwasanaethau i Oedolion

Cwynion a ddaeth i law
62

48 Cam 1

14 Cam 2

65 Ailgyfeirio / Dim camau pellach /
Wedi'i Oedi

Derbyniwyd 1 cwyn y tu allan i'r
amserlen o 12 mis.
Cafodd 1 eu gwrthod

Aeth 7 o gŵynion i'r Ombwdsmon
Derbyniwyd 0
Gwrthodwyd 5
Datryswyd 2 yn gynnar

Cam 1

Natur y gŵyn – Y 3 Uchaf

16 Ansawdd y Gwasanaeth

15 Diffyg/Oedi o ran y gwasanaeth

7 Materion ariannol

Cydnabuwyd o fewn yr amserlen

90%

Ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen

79% Statudol

Corfforaethol **100%**

Cam 2

Natur y gŵyn – Y 3 Uchaf

8 Ansawdd y Gwasanaeth

3 Proses asesu/ymyrraeth

Materion ariannol
2 Diffyg/Oedi o ran y gwasanaeth
Ymddygiad staff

6 Cadarnhawyd

7 Heb eu cadarnhau

100% Ymatebwyd iddynt o fewn 6 mis

Hyfforddiant



4 Sesiynau hyfforddi wedi'u darparu

39 Staff yn bresennol

Engbreiffiau o Ganmoliaeth gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion

"Dyweddodd fod y gyrrwr danfon wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyl a'i helpu i newid bwlb golau a dywedodd ei fod yn rhagorol ar y ddau achlysur yr ymwelodd â hi"

"Hoffwn ddiolch o galon i chi am yr agwedd dosturiol ac ystyriol rydych chi wedi'i dangos drwy gydol yr amser anodd hwn. Gwnaeth eich empathi a'ch proffesiynoldeb yn eich trafodaethau gyda'r ddau ohonom wahaniaeth gwirioneddol, ac, am hynny, rwy'n wirioneddol ddiolchgar."

"Dim ond neges fer i ddiolch i chi am y cymorth a roesoch i helpu mam i barhau i fyw'n annibynnol yn ei chartref ei hun.

Rwyf wedi bod mewn cysylltiad â nifer o'ch staff dros y blynyddoedd, ac rwyf bob amser wedi edmygu'r ffordd drugarog a dynol yr ydych chi wedi ymdrechu i ddarparu'r cymorth angenrheidiol, gan gadw mewn cof yr angen i reoli gwariant yn ofalus.

Ychydig o bobl sy'n cyrraedd 103 a llai ohonyn nhw yn eu cartref eu hunain. Byddai wedi bod yn amhosibl heb y pecyn cymorth a gydlynwyd gennych chi."

"Rhaid i mi hefyd ddweud faint o bleser fu hi i gwrdd â chi a gweithio gyda chi. Rydych chi wedi bod yn berson hawdd mynd ato a chyfeillgar iawn, ac yn gwbl broffesiynol yn eich gwybodaeth a'ch cyngor am gymorth a gweithdrefnau. Mewn sefyllfa sydd yn y bôn yn drist ac sydd yn gofyn am atebion nad wyf wedi gallu dod o hyd iddynt ar fy mhen fy hun, rwyf wedi gwerthfawrogi eich cymorth a'ch cefnogaeth yn fawr. O safbwynt personol, mae'n drueni efallai na chawn gyfle i gwrdd eto, ond rwy'n falch iawn ein bod wedi cael y cyfle i gwrdd hyd yma."

Fel teulu, hoffem ddiolch i ti am yr holl help a chynghor y gwnes ti ei roi i ni i gael y gofal gorau i mam am y dyfodol.

Diolch hefyd am ymweld â mam tra roedd yn ysbyty. Fi'n gwybod fod mam wedi joio gweld wyneb cyfarwydd yn enwedig gan ei bod heb dy weld ti ers llawer dydd. Diolch"

Canmoliaeth Plant a Theuluoedd

Canmoliaeth a ddaeth i law 10

Y 3 Ardal Uchaf

- 4 Cymorth a Diogelu
- 3 Cymorth Cynnar ac Asesu
- 2 Cymorth i Deuluoedd ac Adnoddau

Cwynion Plant a Theuluoedd

Cwynion a ddaeth i law 70

- 56 Cam 1
- 14 Cam 2
- 54 Ailgyfeirio / Dim camau pellach / Wedi'i Oedi

Derbyniwyd 2 cwyn y tu allan i'r amserlen o 12 mis
Cafodd 1 eu gwrthod

Aeth 16 o gŵynion i'r Ombwdsmon
Derbyniwyd 1 - Wedi'i Gadarnhau
Gwrthodwyd 8
Datryswyd 4 yn gynnar
3 Materion yn parhau

Cam 1

Natur y Gŵyn – Y 3 Uchaf

- 18 Ymddygiad staff
- 9 Diffyg/Oedi o ran y gwasanaeth
- 8 Diffyg gwybodaeth/cyfathrebu

Cydnabuwyd o fewn yr amserlen

89%

Ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen

48% Statudol Corfforaethol 75%

Cam 2

Natur y Gŵyn – Y 3 Uchaf

- 6 Ymddygiad staff
- 5 Ansawdd y Gwasanaeth
- 2 Problemau cofnodi gwybodaeth
Peidio â dilyn y broses briodol

Cam 2 Wedi'i Gwblhau

11 Statudol Corfforaethol 5

3 Cadarnhawyd 3

8 Heb eu cadarnhau 2

91% Ymatebwyd iddynt o fewn 6 mis 60%

Engbreiffiau o Ganmoliaeth gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd

"Rwy'n ysgrifennu i gyflwyno canmoliaeth ffurfiol i'r gweithiwr cymdeithasol am y cymorth a roddodd i'm ŵyr a'n teulu yn ystod cyfnod a oedd yn hynod o ofidus pan oedd yn anodd gwybod sut i symud ymlaen.

Yn benodol, hoffwn gydnabod yr arweiniad a'r gofal a gawsom drwy gydol y broses Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Roedd hwn yn gyfnod heriol ac emosiynol iawn i ni i gyd, ac nid oedd y broses ei hun bob amser yn hawdd ei llywio oherwydd natur ymwthiol yr asesiad hwn.

Fodd bynnag, fe wnaeth y gweithiwr cymdeithasol ein cefnogi gydag amynedd, proffesiynoldeb a thrugaredd diffuant bob cam o'r ffordd. Cymerodd yr amser i esbonio gweithdrefnau'n glir, gwrandawodd ar ein pryderon, a sicrhodd ein bod yn teimlo ein bod yn cael ein cefnogi. Gwnaeth ei sicrwydd a'i hymrwymiad wahaniaeth sylweddol i'n teulu yn ystod profiad a oedd yn llethol. Yn bwysicaf oll, arweiniodd y cymorth a ddarparwyd at y canlyniad cywir i'm ŵyr, ac am hynny rydym yn ddiolchgar iawn. Mae'n amlwg ei bod hi wedi ymrwymo i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'r plant a'r teuluoedd y mae'n gweithio gyda nhw. Hoffem hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno gyrfa lwyddiannus iddi. Nid oes gennym unrhyw amheuaeth y bydd hi'n parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywydau llawer o bobl ifanc a theuluoedd yn y dyfodol."

"Roedden ni eisiau cymryd eiliad i ddiolch i chi a'ch tîm am yr holl gefnogaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni drwy gydol y daith hon. Rydym mor ddiolchgar am yr ymddiriedaeth rydych chi wedi'i rhoi ynom ni, ac am roi'r ffrind i ni groesawu [y plant] i'n teulu. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y gofal, yr arweiniad a'r ymroddiad rydych chi a'ch cydweithwyr wedi'u dangos bob cam o'r ffordd. Mae'n golygu llawer iawn i ni wybod eich bod wedi credu ynom ni ac wedi ein cefnogi yn y broses hon, ac rydym yn teimlo'n ffodus iawn o allu darparu cartref cariadus a diogel i'r plant. Diolch o galon"

"Rwy'n falch iawn ohonof fy hun! Diolch am y cyfle ac am fy nghefnogi drwy gydol y cyfnod.

Dydwn i ddim wedi teimlo'r ymdeimlad hwn o gyflawniad ers amser maith ac rwy'n credu fy mod i wir ei angen. Roeddwn i eisiau dweud diolch. Rydych chi wedi bod yn angor i mi pan oeddwn i wedi bod eich angen chi a byddaf yn ddiolchgar am byth i chi a'r cyfleoedd rydych chi wedi'u rhoi i mi a fy mhiant

xxx"

Dywedodd y plentyn fod y gweithiwr cymdeithasol "fel petai'n ei ddeall yn iawn" a'i fod yn gallu "siarad ag ef yn agored a bod yn onest ag ef". Soniodd hefyd, oherwydd ei gysylltiad blaenorol â gweithiwr cymdeithasol, ei fod yn teimlo na allai fod yn agored ac yn onest ond ei fod bellach yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny. Yn ogystal, dywedodd fod ganddo "lawer o amser" i'r gweithiwr cymdeithasol a'i fod yn gwerthfawrogi ei gefnogaeth.

Enghraifft o argymhellion yn sgil cwynion a gwersi a ddysgwyd – Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Cam Statudol 1

Cwyn

Pryderon ynghylch ansawdd y gofal a dderbyniwyd gan y gwasanaeth gofal cartref.

Argymhelliad

Trefnu i uwch-swyddog gael ei ddyrannu i ailedrych ar y gwaith papur yn y ffeil i drafod sut yr hoffai'r achwynnydd i'w ofal personol gael ei ddarparu a hefyd edrych ar ei ddewisiadau bwyd, gan sicrhau bod y rhain wedi'u dogfennu'n gywir.

Cam Gweithredu

Wedi'i gwblhau gan uwch-ofalwr.

Cam Statudol 2

Cwyn

Anhapus â'r gofal a ddarparwyd i berthynas.

Argymhelliad

Cynghori pob asiantaeth arall, wrth gwblhau'r asesiad risg, fod angen cynnwys mwy o fanylion am ddymuniadau'r unigolyn mewn 'argyfwng meddygol' a dylai staff annog yr unigolyn i roi rhifau cyswllt brys eraill.

Cam Gweithredu

Roedd asesiadau risg yn rhan o'r rhaglen archwilio ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd o fframweithiau gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau cymorth cartref yn ystod 25/26. Craffodd staff ar asesiadau risg unigol drwy gasglu samplau, ar gyfer pob darparwr yn ôl math o wasanaeth, yn ogystal â gwirio prosesau a gweithdrefnau ar lefel sefydliadol.

Enghraifft o argymhellion yn sgil cwynion a gwersi a ddysgwyd – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd:

Cam Statudol 1

Cwyn
Ynglŷn â'r broses a'r driniaeth a brofwyd yn ystod y cais mabwysiadu.
Argymhelliad
Trefnu ymweliad wyneb yn wyneb dilynol i archwilio'r pryderon ynghylch cyswllt â'r teulu ac asesu goblygiadau diagnosis yr achwynydd.
Cam Gweithredu
Cyfarfodydd dilynol wedi'u cwblhau, asesiad yn symud ymlaen drwy'r sianeli perthnasol.

Cam Statudol 2

Cwyn
Ynglŷn â phryderon ynghylch darpariaeth canolfannau plant.
Argymhelliad
Sefydlu gweithgor o fewn y cyfleuster a gwahodd yr achwynwyr i ymuno â'r gweithgor hwnnw.
Cam Gweithredu
Gwahoddwyd yr achwynwyr i fod yn rhan o weithgor a gwnaethant gytuno i hyn.

Arolwg Gofal a Chymorth

Mae'r Arolwg Gofal a Chymorth yn ddull allweddol o gasglu adborth gan bobl sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol, a chan ofalwyr am eu profiadau o ddarparu gofal a chymorth. Mae'n rhoi cipolwg ar a yw pobl yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a ydynt yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, ac a ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn yr iaith o'u dewis, yn ogystal â'u profiadau o gysylltu â gwasanaethau a chael mynediad at gymorth amserol, ac o ansawdd y cyfathrebu â gwasanaethau.

Ym mis Ionawr 2026, cynhaliwyd arolwg gofal a chymorth gyda sampl o tua 1,200 o ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi derbyn cynllun gofal a chymorth ers mis Ebrill 2025. Am y tro cyntaf, defnyddiwyd dolen arolwg ddigidol, gan nodi symud i ffwrdd o'r dull traddodiadol seiliedig ar bapur. Cynhyrchodd y dull newydd hwn gyfanswm o 73 o ymatebion, gan gynnwys adborth gan 53 o ddefnyddwyr gwasanaeth a 20 o ofalwyr, gan roi cipolwg gwerthfawr ar eu profiadau.

Defnyddwyr Gwasanaethau	Gofalwyr	
52%	90%	wedi ei chael hi'n hawdd cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol
68%	80%	wedi gweld bod yr wybodaeth, y cyngor neu'r cymorth a gynigiwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol yn ddefnyddiol
86%	100%	yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch ac urddas gan mwyaf
76%	95%	yn teimlo bod rhywun wedi gwrando arnynt wrth gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol
86%	100%	wedi gallu cyfathrebu yn yr iaith o'u dewis
83%	100%	yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol pe bai eu hamgylchiadau'n newid
88%	100%	yn gwybod sut i gysylltu â'u darparwr gofal

Er bod llawer o'r ymatebion yn dangos safbwynt cadarnhaol, yn enwedig o ran profiad gofalwyr, mae'n amlwg bod gwaith i'w wneud o ran defnyddwyr ein gwasanaeth ac yn benodol o ran cysylltu â ni ac o ran cynnig gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth. Er nad yw'n benderfyniad sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chanlyniadau'r arolwg, dechreuwyd adolygiad mewnol o'n gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ym mis Mai 2025 a chyflawnodd newid cadarnhaol gyda mwy o waith i'w wneud o hyd. Yn ogystal, mae adolygiad allanol yn cael ei gynllunio o Llesiant Delta (lle mae ein gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael eu cynnal a'u darparu) a fydd yn rhoi hyd yn oed mwy o fewnwelediadau i'r ddarpariaeth gwasanaeth gyda'r bwriad o

fynd i'r afael â'r gyfran sylweddol o bobl sy'n dweud eu bod naill ai'n ei chael hi'n anodd cysylltu â ni neu nad ydynt yn gweld yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a ddarperir yn ddefnyddiol.

Barn y Staff

Arolwg Staff Corfforaethol 2025

Mae'r Arolwg Staff Corfforaethol yn rhoi cipolwg blynyddol ar brofiad ac ymgysylltiad staff. Cynhaliwyd arolwg 2025 rhwng 9 Mehefin a 18 Gorffennaf 2025 a derbyniwyd 549 o ymatebion, yn cynrychioli tua 27% o'r gweithlu Cymunedau (a elwir bellach yn Wasanaethau Cymdeithasol a Thai). Roedd yn cwmpasu chwe thema:

Gweithio i Ni
Llesiant (newydd ar gyfer 2025)
Cyfathrebu
Dysgu a Datblygu
Disgwyliadau a Chydnabyddiaeth
Sut mae Fy Ngwasanaeth yn Perfformio?

Mae ymgysylltiad cyffredinol ar draws Cymunedau yn gadarnhaol. Mae staff yn adrodd am falchder o weithio i'r cyngor, diwylliant tîm cryf, a rheolaeth linell gefnogol. Mae llesiant a gweithio hyblyg yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i ddysgu a datblygu, gan gynnwys drwy fynediad at ddysgu yn eu dewis iaith. Mae timau lleol a rheolwyr llinell yn cael eu nodi'n gyson fel cryfderau allweddol.

Tynnodd yr arolwg sylw hefyd at heriau, yn enwedig o ran cyfathrebu mewnol, pwysau llwyth gwaith, a chydnabyddiaeth y tu hwnt i dimau uniongyrchol. Cododd rhai staff bryderon ynghylch diffygiad, amgylcheddau swyddfa, ac a yw adborth arolygon yn arwain at newid gweladwy. Mae mynd i'r afael â chyfathrebu, cydnabyddiaeth a dilyniant ar lefelau uwch a chorfforaethol yn ffocws allweddol wrth symud ymlaen.

Cyfathrebu Mewnol

Daeth cyfathrebu mewnol i'r amlwg fel mater allweddol, gan arwain at arolwg dilynol ym mis Mawrth 2026, gyda 521 o ymatebion. Mae staff yn teimlo eu bod yn wybodus am faterion gweithredol o ddydd i ddydd, gyda rheolwyr llinell, e-bostio a chyfathrebu wyneb yn wyneb wedi'u graddio fel y rhai mwyaf effeithiol. Dywedodd y staff nad oedd blaenoriaethau'r sefydliad, negeseuon arweinyddiaeth a chydnabyddiaeth yn ddigon clir iddynt, ynghyd â gormodedd o wybodaeth a'r ffaith nad oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n gyson. Mae staff rheng flaen a staff nad ydynt yn gweithio wrth ddesg yn llai tebygol o dderbyn diweddariadau amserol.

Mae staff eisiau cyfathrebu cliriach a syml, rhannu gwybodaeth yn fwy cyson gyda dilynant ysgrifenedig, targedu gwell i leihau gorlwytho gwybodaeth, mwy o welededd gan arweinwyr, mynediad gwell i staff rheng flaen, a gwybodaeth gliriach am rolau, strwythurau a chyfrifoldebau.

Gwobrau

Mae ein gwaith wedi cael ei gydnabod drwy amrywiaeth o wobrau ac anrhydeddau, sy'n adlewyrchu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ar draws y cyngor. Mae'r cydnabyddiaethau hyn yn tynnu sylw at ein hymrwymiad parhaus i gefnogi pobl yn effeithiol a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein cymunedau. Maent hefyd yn cydnabod ymroddiad a phroffesiynoldeb ein staff ac yn cefnogi ein ffocws parhaus ar welliant.

Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru 2025

Gweithio mewn Partneriaeth

Cysylltu Sir Gaerfyrddin

Gwobr Gofal Cymdeithasol am Weithio mewn Partneriaeth ym mis Ebrill/Mai 2025
Cydnabyddiaeth am gydweithio cryf, gwaith partneriaeth tryloyw, a chyflawni canlyniadau cadarnhaol i breswylwyr Sir Gaerfyrddin.



Gwobr Arweinyddiaeth Ysbrydoledig

Avril Bracey, Pennaeth Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Dyfarnwyd Gwobr Arweinyddiaeth Ysbrydoledig iddi yng Ngwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru ar 1 Mai 2025 ar gyferei harweinyddiaeth ragorol o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion.



Gwaith Partneriaeth Rhagorol

Llesiant Delta, mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Derbyniwyd **canmoliaeth uchel** yng Ngwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru 2025 am wasanaeth arloesol CONNECT Delta.



Gwobrau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gorllewin Cymru Mawrth 2026



🏆 Gofalwr y Flwyddyn

Enwebeion:

Wendy Pett
Pat Harvey

Kim Bone
Meinir Howells

★ Enillydd: **Pat Harvey**

Cafodd Pat ei chydabod am ei hymroddiad eithriadol, ei charedigrwydd, a'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae hi'n ei wneud i bawb mae hi wedi'u cefnogi ers 1996!

🏆 Gwobr Arweinydd Ysbrydoledig

★ Ar y rhestr fer: **Gail Sinclair**




Gwobr Buddsoddwyr mewn Gofal

Tîm / Gwasanaeth	Statws y Wobr
Rheolwyr Cynhwysiant Cymunedol Cysylltu Sir Gaerfyrddin Timau Gwaith Cymdeithasol	Arian
Gofal Cartref Gwasanaethau Dydd (yn yr arfaeth)	Efydd
Timau Cymunedol Anableddau Dysgu	Dyfarniad Buddsoddwyr mewn Gofalwyr wedi'i Gwblhau (lefel heb ei nodi)

Dathlu Rhagoriaeth:

Gwobrau Cyflawniad Gofal Cartref 2025

Yn ystod y gaeaf, dathlodd y Gwasanaeth Gofal Cartref yr ymroddiad, y tosturi a'r proffesiynoldeb eithriadol a ddangoswyd ar draws gofal cartref. Roedd y gwobrau'n cydnabod aelodau'r tîm sy'n mynd y tu hwnt i'r disgwyl bob dydd, gan gefnogi unigolion, codi calon cydweithwyr, a chynrychioli'r gorau o ran gofal cartref.



Tynnwyd sylw gan y Cynghorydd Jane Tremlett, yr Aelod Cabinet dros lechyd Integredig a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion, at y gwaith rhyfeddol a wnaed gan y timau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant drwy gydol 2025/26. Dros y flwyddyn, roedd timau'n gyson yn rhagori ar ddisgwyliadau, gan ymgymryd â heriau gydag ymroddiad a chyflawni canlyniadau cryf i bobl Sir Gaerfyrddin.



Rheolwyr Cartrefi Preswyl Plant



Tîm ECLIPSE

Camau Nesaf 2026/27

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2026/27 wedi'u nodi'n fanwl yn ein cynlluniau busnes adrannol. Mae'r cynllun busnes yn nodi'r camau gweithredu a'r mesurau allweddol a fydd yn cyflawni ein blaenoriaethau yn ymarferol. Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn canolbwyntio ar yr amcanion strategol canlynol:

	Gofal Cymdeithasol i Oedolion
1	Byddwn yn casglu adborth gan oedolion sydd mewn perygl a'u gofalwyr i werthuso canlyniadau ymyriadau diogelu a nodi meysydd o arfer da a meysydd i'w gwella.
2	O fewn Cyfleoedd Dydd, byddwn yn ymestyn oriau gwasanaeth i gynnig mwy o ddewis a hyblygrwydd i fynychwyr, ac i gynyddu'r capasiti i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy'n trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.
3	Byddwn yn ehangu llety seibiant yng Nghaerfyrddin drwy ddatblygu cyfleusterau newydd a chynyddu capasiti, gan sicrhau cymorth hygyrch o ansawdd uchel i bobl ag anableddau dysgu dwys a phobl ag anghenion cymhleth iawn.
4	Byddwn yn arallgyfeirio cynllun Cysylltu Bywydau Gorllewin Cymru drwy gynnig lleoliadau y tu hwnt i anabledd dysgu. Byddwn yn archwilio cyfleoedd newydd yn weithredol i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty ar gyfer pobl hŷn neu bobl ag anghenion iechyd meddwl.
5	Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â thimau comisiynu a thai i gynyddu nifer yr unedau llety yn unol â'r galw a ragwelir o fewn y 12 mis nesaf i ddiwallu ein galw newydd a chefnogi pobl sy'n camu i lawr o ofal preswyl.
6	Byddwn yn gweithio gyda chomisiynu, gwasanaethau plant a thai i gyflawni'r cynllun llety a chymorth ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth sy'n trosglwyddo o wasanaethau plant.
7	Byddwn yn parhau i ddatblygu darpariaeth gofal cartref fewnol a chynaliadwy yn unol â Chynllun Cynaliadwyedd y Gwasanaethau Cymdeithasol.
8	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid iechyd (lle bo'n berthnasol) i ehangu gwasanaeth ymyrraeth gynnar / atal mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

9	Byddwn yn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata i gefnogi'r gwahanol fodelau o dan y strategaeth 'datblygu eich hun' sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau gweithlu.
10	Byddwn yn arwain ar y trefniadau diogelu corfforaethol, gan sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau i amddiffyn oedolion a phlant sydd mewn perygl. Bydd ein dull yn gwneud diogelu yn gyfrifoldeb a rennir ar draws y sefydliad.
11	Byddwn yn cyflawni dyletswydd adran 36 yr awdurdod lleol o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i sicrhau bod panel Channel lleol effeithiol ar waith i asesu pobl sy'n agored i gael eu denu i derfysgaeth a darparu cymorth iddynt.
12	Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i ddatblygu set o fesurau priodol i gasglu a gwerthuso adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.
13	Byddwn yn cydymffurfio â'r Swyddfa Gartref gyda'r fframwaith sicrwydd Channel newydd i ddangos tystiolaeth o gydymffurfedd.

	Gwasanaethau Integredig
15	Gweithredu'r cynllun gweithredu a ysgrifennwyd yn dilyn yr asesiad o argaeledd gwasanaethau dementia yn Sir Gaerfyrddin a nodi'r diffygion yn y ddarpariaeth.
16	Gweithredu'r cynllun gweithredu yn dilyn cyflawni Adolygiad Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Integredig Sir Gaerfyrddin.
17	Byddwn yn datblygu cytundeb ffurfiol rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd, gan amlinellu cyfrifoldebau ar y cyd wrth gytuno ar strwythur staffio newydd mewn Gwasanaethau Integredig i gefnogi ein dull o ddatblygu cymunedau cryf, helpu pobl i helpu eu hunain, a darparu cymorth pan fo angen. CV12
18	Byddwn yn cefnogi ac yn gweithredu strategaeth atal deng mlynedd Byw'n Dda yn Sir Gaerfyrddin, sy'n cwmpasu pob oed. Bydd cynllun gweithredu a grwpiau gweithredu yn cael eu datblygu i ysgogi'r uchelgeisiau a nodir yn y ddogfen. Bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn y ddarpariaeth gwasanaethau mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd, y trydydd sector a'r gymuned.

19	Byddwn yn cefnogi gweithrediad y bwrdd iechyd o bwynt mynediad sengl saith diwrnod i atal derbyniadau i'r ysbyty a chefnogi rhyddhau cynnar â chymorth o safbwynt gofal cymdeithasol.
20	Yn dilyn adolygiad o wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth / drws blaen i Wasanaethau Oedolion, byddwn yn datblygu cynllun gweithredu cadarn i gyflawni rhaglen o ailgynllunio, gan gofleidio trawsnewid digidol a chyfleoedd deallusrwydd artiffisial i sicrhau ymyrraeth gynnar ac atal i'n poblogaeth.

	Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
21	Parhau i fynd i'r afael â'r bylchau yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022–27, gan gynnwys hyrwyddo a datblygu gofal plant cyfrwng Cymraeg ymhellach.
22	Gweithredu Cynllun Gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad at gyfleoedd a phrofiadau chwarae sy'n eang ac yn amrywiol.
23	Gweithredu ehangu Dechrau'n Deg fesul cam yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
24	Ehangu ein model integreiddio blynyddoedd cynnar drwy gydweithio'n agosach â'r bwrdd iechyd i ddarparu cymorth ataliol a mwy cydlynol i blant a theuluoedd.
25	Adolygu'r ddarpariaeth llety â chymorth a chynnal ymarfer caffael ar y cyd â'r Tîm Comisiynu Oedolion i sicrhau llety digonol o ansawdd uchel.
26	Cydgynhyrchu darpariaeth seibiannau byr bwrpasol gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu llunio o amgylch eu cryfderau, eu dewisiadau a'u nodau. Gwneud y defnydd mwyaf o asedau cymunedol i ddarparu cymorth o ansawdd uchel a chost isel sy'n gynaliadwy ac â gwreiddiau lleol.
27	Cyflawni ein dyletswyddau fel Awdurdod Ymgysylltu drwy hyrwyddo a chyhoeddi'r Cynnig Gofal Plant i rieni cymwys yn Sir Gaerfyrddin.
28	Cyflwyno pedair elfen y gwasanaeth Dechrau'n Deg i 1,959 o blant ar draws ardaloedd difreintiedig Sir Gaerfyrddin yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
29	Datblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc digwmni sy'n ceisio lloches o fewn cyllideb y Swyddfa Gartref.

Comisiynu a Chymorth Busnes

30	Byddwn yn gweithio gydag eraill i ddatblygu a gweithredu'r system newydd – modiwl cyllid ar gyfer codi tâl. (Gofal Cymdeithasol)
31	Byddwn yn archwilio sut y gall gwahanol fathau o dechnoleg wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein systemau. (e.e. taliadau a chodi tâl)
32	Datblygu gweithlu'r Uned Cymorth Busnes i ganolbwyntio ar sgiliau digidol a chefnogi'r gwasanaethau i wella prosesau a systemau trwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, RPA ac ati.
33	Byddwn yn datblygu fframwaith datblygu gweithlu comisiynu rhanbarthol, gan sicrhau bod gennym y capasiti a'r sgiliau i gryfhau cymhwysedd a meithrin hyder.
34	Byddwn yn gweithredu'r Cynllun Cynaliadwyedd ar gyfer Gofal Oedolion drwy lunio a dylanwadu ar y farchnad yn strategol i ddiwallu anghenion y dyfodol, gan sicrhau system gofal cymdeithasol gynaliadwy a chyflenwad digonol i ddiwallu'r galw.
35	Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i barhau i osod cyfraddau gofal priodol ar gyfer pob math o wasanaeth, a datblygu modelau costio priodol i gefnogi gosod y cyfraddau hyn.
36	Byddwn yn cynnal adolygiad comisiynu o'n trefniadau presennol a'n modelau darparu gwasanaethau i'n galluogi i ail-lunio'r farchnad darparwyr, gan sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar gael i ddiwallu anghenion presennol a dyfodol y boblogaeth.
37	Byddwn yn parhau i wneud y mwyaf o adennill incwm o fewn yr adran a lleihau lefelau dyled.
38	Byddwn yn adolygu trefniadau trafnidiaeth ar gyfer gofal cymdeithasol.
39	Byddwn yn adolygu cymorth comisiynu a chyllid a busnes, sy'n gysylltiedig â chyfansoddiad newydd y gyfarwyddiaeth.
40	Gweithredu'r cod ymarfer (Medi '24) trwy ddyletswydd statudol ar y cyd ag iechyd a gofal cymdeithasol. Cwblhau hunanasesiad a chynllun gweithredu i sicrhau cydymffurfedd, a sicrhau bod gan y staff comisiynu yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i fodloni safonau.

Atodiad 1

Aliniad Safonau Ansawdd

Mae'r gweithgareddau a'r cyflawniadau a nodir yn yr adran hon yn dangos cyflawniad cryf yn erbyn y safonau ansawdd cenedlaethol ar gyfer llesiant o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

✓	Safon Ansawdd 1 Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni
✓	Safon Ansawdd 2 Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u llesiant emosiynol
✓	Safon Ansawdd 3 Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed
✓	Safon Ansawdd 4 Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas
✓	Safon Ansawdd 5 Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel ac i gynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach
✓	Safon Ansawdd 6 Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni llesiant economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol, a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion

Atodiad 2

Astudiaethau Achos

Rhyddhau Amser i Ofalu a'r Gwasanaeth Asesu Gofal

Cael y lefel briodol o ofal â dwy law

Ar ôl cael ei ryddhau o Ysbyty'r Tywysog Philip, atgyfeiriwyd unigolyn a oedd yn derbyn gofal dwy law bedair gwaith y dydd at raglen Rhyddhau Amser i Ofalu a'r Gwasanaeth Asesu Gofal. Cynhaliwyd adolygiad therapi galwedigaethol i asesu'r defnydd o gymorth trosglwyddo Stedy, gan ganolbwyntio ar uchafu annibyniaeth i'r eithaf.

Drwy adsefydlu, dangosodd yr unigolyn well trosglwyddiadau, gan alluogi lleihau gofal yn ddiogel o gymorth dwy law i gymorth un llaw. Diweddarodd asesiad gwaith cymdeithasol y cynllun gofal a chymorth a'r cytundeb gwasanaeth unigol i adlewyrchu'r angen a aseswyd.

O ganlyniad, lleihawyd gofal i ddwy alwad ddyddiol gydag un gofalwr. Gwnaeth hyn gyflawni'r pecyn gofal lleiaf ymwithiol, lleihau'r risg o ddatgyflyru, gwella llesiant, a hyrwyddo annibyniaeth. Cafodd gofal wedi'i gomisiynu ei leihau **18 awr a 40 munud yr wythnos**.

Mynegodd yr unigolyn, gyda chymorth iaith y corff ac offer cyfieithu, ei fod yn hapus ac yn ddiolchgar am y newidiadau.

Astudiaeth Achos

Gwasanaethau Integredig

Astudiaeth Achos

Cysylltu Bywydau

Astudiaeth Achos: Symud tuag at Annibyniaeth drwy Gysylltu Bywydau

Atgyfeiriwyd X, dyn ag anableddau dysgu, at Cysylltu Bywydau Gorllewin Cymru yn 2015 oherwydd gwendidau sy'n gysylltiedig ag ynysigrydd cymdeithasol, risgiau camfanteisio a sgiliau byw annibynnol cyfyngedig. Roedd Cysylltu Bywydau yn darparu amgylchedd sefydlog mewn teulu lle gallai X ddatblygu hyder, sgiliau a gwydnwch yn ddiogel wrth weithio tuag at ei nod hirdymor o fyw'n annibynnol.

Dros gyfnod lleoliad estynedig, gwnaeth X gynnydd sylweddol ar draws tasgau byw bob dydd, gan gynnwys gofal personol, coginio, golchi dillad, cyllidebu, siopa, a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn annibynnol. Roedd cymorth cymesur, yn seiliedig ar gryfderau, yn galluogi rheoli risg heb leihau ymreolaeth. Datblygodd X gysylltiadau cymunedol cryf hefyd, gan fynychu prosiectau Mencap, cynnal perthnasoedd, a rheoli cyfrifoldeb am ei gath anwes, sy'n cefnogi ei lesiant.

Roedd byw'n annibynnol yn parhau i fod yn ganlyniad hirdymor clir a rennir drwy gydol yr adolygiadau. Ar ôl tua deng mlynedd, symudodd X yn llwyddiannus i'w fflat ei hun gyda chymorth wythnosol lefel isel wedi'i gynllunio. Mae'n parhau i fyw'n annibynnol, gan ddangos cynllunio cam-i-lawr effeithiol ac effaith gadarnhaol cymorth Cysylltu Bywydau hirdymor sy'n seiliedig ar berthnasoedd wrth hyrwyddo annibyniaeth, llesiant, a llai o ddibyniaeth ar wasanaethau.

Astudiaeth Achos Cynhwysiant Cymunedol

Cysylltydd Cymunedol

Atgyfeiriwyd X at y Cysylltydd Cymunedol gan weithiwr cymdeithasol y Tîm Cymunedol Anableddau Dysgu oherwydd ynysigrwydd cymdeithasol sylweddol yn gysylltiedig ag awtistiaeth, dyspracsia a gorbryder uchel, a olygai nad oedd yn mynychu gweithgareddau cymunedol yn annibynnol ac arhosodd gartref yn bennaf. Yn dilyn ymweliad cartref cychwynnol gydag X a'i rieni, nodwyd cyfleoedd a oedd yn cyd-fynd â'i ddiddordebau, gan gynnwys ysgrifennu creadigol, pŵl a grwpiau sy'n canolbwyntio ar niwroamrywiaeth, gyda chymorth cychwynnol gan ei dad. Ymgysylltodd X yn gadarnhaol â'r grŵp *Story Care & Share* yn People Speak Up, grŵp pŵl lleol, a'r grŵp T.R.A.I.N yn y Sied Nwyddau Rheilffordd, gan yn raddol feithrin hyder, perthnasoedd a threfn. Dros amser, dechreuodd X fynychu grwpiau'n annibynnol, datblygu cyfeillgarwch, dechrau mynd i grŵp gemau, a dechrau cwrdd â chyfoedion yn gymdeithasol y tu allan i sesiynau, gan ddweud: "Rwy'n teimlo bod gen i ffrindiau nawr."

Roedd y **canlyniadau** yn cynnwys gwell hyder, hunan-barch, gofal personol, llesiant meddyliol a strwythur dyddiol, ochr yn ochr â mwy o gyfranogiad cymunedol ac annibyniaeth sy'n dod i'r amlwg, gyda chynlluniau yn y dyfodol ar gyfer hyfforddiant teithio i leihau ymhellach y ddibyniaeth ar gymorth teuluol.

I gloi, mae'r achos hwn yn dangos effaith cysylltiad cymunedol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ymyrraeth gynnar a gweithio partneriaeth cryf wrth leihau ynysigrwydd a chefnogi annibyniaeth raddol a chynaliadwy, gydag X a'i deulu yn nodi newidiadau bywyd cadarnhaol sylweddol.

Astudiaeth Achos Gwasanaethau Plant

Llety â Chymorth

Roedd X yn 17 oed pan gyflwynodd ei hun yn HWB Llanelli yn gofyn am gymorth ynghylch ei fywyd cartref.

Roedd X yn astudio ar gyfer ei Safon Uwch ac yn ei chael hi'n anodd oherwydd ffordd o fyw anhrefnus ac yn aml rheolaethol ei rieni. Ar ôl asesiad gan weithiwr cymdeithasol, cytunwyd y dylid cefnogi X i fyw yn rhywle yr oedd yn teimlo'n ddiogel. Symudodd X i leoliad llety â chymorth yn agos at ei goleg ym mis Medi 2024.

Rhoddodd y lleoliad hwn y cyfle iddo ganolbwyntio ar ei astudiaethau a mwynhau cael ffrindiau, rhywbeth nad oedd yn cael ei wneud gartref. Dywedodd wrthym hefyd ei fod yn teimlo'n ddiogel, y tro cyntaf ers amser maith. Gan nad oedd rhaid i X boeni am gyllid, gweithiodd X yn rhan-amser, gan arbed swm mawr o arian er mwyn iddo allu anelu at fyw ac astudio yn Llundain.

Derbyniodd X bedair Safon Uwch gradd A-B, gan sicrhau lle ym Mhrifysgol Middlesex i astudio cyllid rhyngwladol. Cafodd gymorth i symud i Lundain gan ei weithiwr cymorth llety â chymorth.

Astudiaeth Achos Gwasanaethau Plant

Llety â Chymorth

Cafodd X ei fabwysiadu pan oedd yn blentyn ifanc. Roedd ganddo fywyd teuluol cadarn gyda llawer o gefnogaeth gan dîm gofal plant Dinefwr.

Pan adawodd X addysg, roedd yn cael trafferth gyda'r diffyg strwythur a threfn yr oedd yr ysgol wedi eu rhoi iddo. Manteisiodd ei gyfoedion newydd yn y coleg ar ei wendidau a dechreuodd ymwneud â sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Roedd ei rieni'n ei chael hi'n anodd ymdopi â'r newidiadau sydyn a chyfranogiad yr heddlu ac, yn dilyn ffrâe deuluol, daeth X yn ddigartref ym mis Mawrth 2025 yn 17 oed a symudodd i leoliad llety â chymorth yn fuan wedyn.

Fe wnaeth byw ar wahân i'w rieni helpu X i ennill annibyniaeth, ceisio cymorth arbenigol, ac ymdrin â'i heriau'n agored. Yn raddol, fe wnaeth y broses hon ganiatáu iddo ailadeiladu ymddiriedaeth a chryfhau ei berthnasoedd, gan arwain at gysylltiadau iachach â'i deulu, y mae bellach yn eu gweld yn rheolaidd, gan gysylltu â nhw bob dydd.

Mae X yn gobeithio symud i fflat hyfforddiant a rennir yn ystod yr wythnosau nesaf, lle bydd yn byw'n annibynnol gyda tri o bobl ifanc eraill.

Astudiaeth Achos Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Astudiaeth Achos Ailalluogi

Derbyniwyd Mrs X, menyw 88 oed, i'r ysbyty yn dilyn cwmp a arweiniodd at dorri asennau a cholli hyder gyda symudedd. Daeth yn ddibynnol ar gymorth sefyll ac roedd yn ystyried gofal preswyl i ddechrau; fodd bynnag, nid oedd hyn yn addas. Oherwydd ei chartref aml-lefel a'i symudedd cyfyngedig, trosglwyddwyd i Ysbyty Dyffryn Aman i gael adsefydlu, ac yna cyfnod o ailalluogi.

Cyn cael ei rhyddhau, cyfarfu staff ailalluogi â Mrs X i gytuno ar nodau a oedd yn canolbwyntio ar adennill hyder gyda gofal personol, cerdded a throsglwyddiadau, a rheoli prydau bwyd yn annibynnol. Gyda chymorth gan staff ailalluogi a ffisiotherapyddion, aeth Mrs X ymlaen o ddefnyddio cymorth sefyll i symud yn annibynnol gyda ffrâm Zimmer. Galluogodd hyn hi i reoli gofal personol a pharatoi prydau syml, gan ei helpu i adennill annibyniaeth a hyder.

Cefnogodd y staff hefyd anghenion maeth a llesiant Mrs X wrth annog ei diddordebau cymdeithasol, ei ffydd a'i diddordebau. Yn ystod y cyfnod ailalluogi, symudodd Mrs X i gynllun tai gofal ychwanegol ac ar y dechrau teimlai'n ynysig. Ychwanegwyd nod ymgysylltu cymdeithasol, gyda staff yn ei chefnogi i fynychu prydau bwyd cymunol a grwpiau cymdeithasol a chwrdd â phreswylwyr eraill.

Cafodd Mrs X ei rhyddhau o'r ailalluogi bythefnos yn ddiweddarach heb unrhyw angen cymorth parhaus. Mae hi'n parhau i fyw'n annibynnol, yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau cymunedol, ac yn cynnal cysylltiadau cymdeithasol cryf.